# Cymdeithas
# Cymry Ariannin
# 1939 -1989

# Cymdeithas Cymry Ariannin 1939 -1989

**Cyhoeddwyd gan**
**Gymdeithas Cymry Ariannin**
**Argraffwyd gan**
**Y Coleg Normal, Bangor, Gwynedd**
**1990**

# RHAGAIR

Fel un o sylfaenwyr y Gymdeithas hyfrydwch i mi yw cael cyhoeddi crynhoad byr o'i gweithgarwch yn y llyfryn hwn ar achlysur dathlu ei hanner canmlwyddiant.

Ymfalchïwn fod nifer yr aelodau tua 130 erbyn heddiw, y rhan fwyaf ohonynt wedi cael y cyfle i ymweld â'r Wladfa a phrofi o'r croeso twymgalon yno.

Pleser yw cael diolch i bawb am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd er cadw'r ddolen gydiol â'n cyd-Gymry yn y Wladfa. Diolch hefyd i Valmai Jones ac Ivonne Owen am eu cyfraniadau, ac yn arbennig i Marian Elias Roberts am eu hamynedd a'i gwaith graenus yn gosod yr hanes at ei gilydd.

Eiddwen Humphreys

Gorffennaf 1990

# SEFYDLU'R GYMDEITHAS

Eiddwen Humphreys

Ar Fai 28 1865 cychwynnodd llong hwyliau'r Mimosa ar ei mordaith o dros saith mil o filltiroedd o borthladd Lerpwl i Dde America ac ar ei bwrdd 153 o Gymry â'u bryd ar sefydlu Gwladfa Gymreig yno lle byddai rhyddid a hunan-barch iddynt fel Cymry a lle na byddai'n rhaid pryderu am ormes landlordiaid a thlodi.

Croniclwyd yr hanes hwnnw gan nifer o wahanol bobl a'r hyn y ceisir ei wneud yn y llyfryn hwn yw crynhoi ymdrechion Cymdeithas Cymry Ariannin, ar achlysur dathlu ei hanner canmlwyddiant, i gadw cysylltiad rhwng Y Wladfa Gymreig honno a Chymru.

Sefydlwyd Cymdeithas Cymry Ariannin yn Swyddfa Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Ninbych ar yr wythfed o Awst 1939 gan nifer o gyfeillion a fu'n byw yn y Wladfa y gwelir eu henwau ar y dudalen olaf.

Yn "Grove House", Llanrwst, ar Hydref 29, 1941 y cyfarfu'r pwyllgor cyntaf. Yn bresennol yr oedd y Parchedigion R. Bryn Williams, Llanberis; R. J. Jones, Prestatyn; y Bonwr James Nichols, Ffestiniog, a Nefydd Hughes Cadfan, Ysgrifennydd. Ni allai'r Parchedig Alun Garner fod yn bresennol oherwydd prinder petrol. Gellir dyfalu cymaint oedd sêl y pwyllgor hwn gan y mynnodd y pedwar a enwyd fod yno er bod cyfarfod ordeinio ar yr union adeg yng nghapel Seion, Llanrwst.

Y prif benderfyniadau oedd: mai amcan y Gymdeithas fyddai cadw mewn cyswllt agos â'r Wladfa; bod rhyddid i bob un â diddordeb yn y Wladfa ac yn sefydliadau Cymreig eraill Ariannin i ymaelodi â'r Gymdeithas; ac mai swllt y flwyddyn fuasai lleiafswm y tâl aelodaeth.

Yn Eisteddfod Aberteifi, 1942, y cyfarfuwyd nesaf. Penderfynwyd bod y Gymdeithas: (i) yn argraffu cylchlythyr yn rhoi amcanion ac amodau'r Gymdeithas ac yn apelio am aelodau newydd, gydag amlen i ateb a ffurflen ymaelodi i'r neb a deimlai ddiddordeb yn y Wladfa; (ii) yn ffurfio rhaglen bendant ar gyfer y cyfarfod nesaf, yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1943, gan sicrhau anerchiad gwladfaol, a chaneuon ac adroddiadau gwladfaol os yn bosibl, fel math o Noson Lawen; (iii) ei bod yn apelio at y BBC am ragor o wasanaethau a sgyrsiau Cymraeg i Ariannin; (iv) bod yr Ysgrifennydd yn gohebu â'r Bonwr Rhys Jenkins, A.S., ynglŷn â'r posibilrwydd o anfon llenyddiaeth Gymraeg i'r Wladfa, gan fod golygyddion y Clwb Llyfrau Cymraeg a Llyfrau'r Dryw yn awyddus iawn i anfon llyfrau yno; ei bod yn cysylltu â'r Wladfa gan ofyn iddynt anfon gwobr am gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac i'r Gymdeithas ofyn i Gyngor yr Eisteddfod am destun ar gyfer ymgeiswyr o'r Wladfa; (v) ei bod yn ceisio cysylltiad mwy pendant â Chymdeithas Cymry'r Camwy a Chymdeithas Dewi Sant, Buenos Aires; (vi) bod yr Ysgrifennydd yn anfon hanes y cyfarfodydd i'r Drafod.

Yn ystod y cyfarfod canwyd emyn cenedlaethol Ariannin yn yr iaith Sbaeneg gan y Bonwr Sam Jenkins, Llundain, a chaneuon gwladfaol eraill, ac adroddais innau atgofion am y Wladfa. Yn bresennol yr oedd y Parchedig Nantlais Williams, a fu ar ymweliad â'r Wladfa yn 1939, a soniodd am syched y Gwladfawyr am glywed y Gymraeg.

O hynny ymlaen cyfarfu'r Gymdeithas bob blwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac

uchafbwynt pob cyfarfod fyddai cael croesawu ymwelwyr o'r Wladfa a chael adroddiadau gan rai a fu yno. Yn Eisteddfod Bangor yn 1943 croesawyd yr Archdderwydd Crwys a'i briod a chafwyd gair ganddo yn addo rhoi cefnogaeth i'r Gymdeithas. Diddorol oedd deal i'w briod gael ei geni ger Valparaiso, Chile. Bu Joseff Seth Jones, perthynas iddi, yn byw yn y Wladfa. Adroddir amdano mewn cyfyngder un tro, bron â newynu, ar y paith rhwng Trelew a Madryn. Wrth gerdded ymlaen yn lluddedig a bron â diffygio gwelodd fryncyn lled uchel; anelodd at hwnnw, a dringodd i'w gopa, gan ddisgwyl gweld Porth Madryn oddi yno. Ar ôl cyrraedd darganfu gondor wedi marw. Llawenydd iddo oedd sylweddoli mai newydd farw yr oedd y condor; sugnodd ei waed, a bu hynny yn foddion i'w gadw'n fyw. Enwyd y bryncyn hwnnw yn "Tŵr Joseff".

Yn ystod yr un cyfarfod cafwyd atgofion diddorol am ei ymweliad diwethaf â'r Wladfa gan y Bonwr Robert Owen, Penrhosgarnedd, Bangor; cafwyd unawdau gan Mrs Dilys Owen, Dedwyddfa, Trefnant, yn yr iaith Sbaeneg, a'r Bonwr Sam Jenkins, Llundain, a llongyfarchwyd y Bonwr R. Bryn Williams ar ei lyfr godidog "Cymry Patagonia". Penderfynwyd mai priodol fyddai ceisio llunio rhaglen radio arbennig i'r Wladfa gan rai a fu'n byw yno ond a oedd bellach yn yr Hen Wlad.

Erbyn y cyfarfod nesaf yn Eisteddfod Rhosllannerchrugog yn 1945 derbyniwyd llythyr gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yn nodi'r anawsterau o fedru darlledu i Gymry'r Wladfa oherwydd y rhyfel. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Parchedig Alun Garner, ac etholwyd fy nhad, William M. Evans, Fron-goch, yn Drysorydd.

Gwahoddwyd y Parchedig O. J. Hughes, BA, Bwlch-gwyn, i'r cyfarfod i roi ei argraffiadau ar ôl ei ymweliad diweddar â'r Wladfa. Teimlai ef mai sêl heb wybodaeth a lywodraethai olygon arloeswyr y sefydliad. Nid oedd Porth Madryn ers blynyddoedd bellach yn borthladd rhydd, a milwriai hynny yn erbyn llwyddiant economaidd y sefydliad. Y drefn oedd rhannu pob ffarm yn gyfartal rhwng y plant ar ôl marw rhieni ac erbyn heddiw aethai'r ffermydd yn fân, a gorfodid nifer helaeth o bobl ifainc i fynd i'r brifddinas Buenos Aires i chwilio am fywoliaeth. Arian ydoedd yr angen pennaf yno er mwyn codi'r sefydlwyr are eu traed. Gyda phobl gefnog y Wladfa yr arferai ymwelwyr o Gymru aros, a hynny yn lliwio eu hadroddiadau am y lle. Roedd O. J. Hughes wedi bod mewn cysylltiad â phobl dlawd a chyffredin y Wladfa. Credai na ddylanwadodd y Cymry yn ddaionus ar fywyd y cenhedloedd estron, ond y daethai llu o ddylanwadau estronol i mewn i'r Wladfa. Nid oedd pobl ifainc Trelew yn deall y Gymraeg ac roedd yn llawer gwell ganddynt siarad Sbaeneg. Ni allai neb bregethu dirwest yno, meddai. Wrth gyfeirio at faner Cymru, y ddraig goch, "nid oedd", meddai, "ond y gynffon yn unig yn gyffredin i'r Cymro. Hawdd iawn gan Gymry'r Wladfa wadu'r ffaith eu bod yn Gymry er mwyn llanw swyddi."

Bu'n rhaid cau un o addoldai'r Wladfa, sef Tair Helygen, ac ni bu ond un gwasanaeth crefyddol yng Nghapel Treorci mewn chwe mis. Dyrnaid fach a fynychai gapel Trelew. Yr oedd gwedd weddol lwyddiannus i gapeli Bethesda a Bryn Crwn ond roedd mwyafrif y capeli yn ddilewyrch. Nid oedd i eglwysi'r Wladfa ystatud cyfreithiol ac nid oedd ganddynt weithredoedd i ddangos eu hawl ar y tir a'r adeiladau. Bu Cenhadaeth Sbaeneg yno yn ddiweddar. Ei hamcan oedd ffurfio eglwysi Sbaeneg ac nid oedd yn barod i gydweithredu ag eglwysi'r Wladfa. Ynglŷn ag addysg, ni chai neb agor ysgolion preifat yno. Nid oedd y Cyngor Prydeinig yn fodlon cynorthwyo addysg Gymraeg o gwbl ac ystyriai fod yn rhaid i'r addysg a'r diwylliant fod yn Brydeinig cyn yr estynnai unrhyw gymorth na nawddogaeth.

Yn sgil anerchiad y Parchedig O. J. Hughes teimlai'r Gymdeithas yn argyhoeddedig fod yn

rhaid gwneud rhywbeth er mwyn y Wladfa, a phenderfynwyd bod y Gymdeithas yn gofyn i'r "Pwyllgor Unedig" a gynrychiolai'r Annibynwyr a'r Methodistiaid wahodd y Parchedig O. J. Hughes i gyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf, a bod y Gymdeithas o'r farn y dylid galw cyfarfod arbennig o'r "Pwyllgor Unedig" i ymdrin ag achos y Wladfa, a'i bod yn gofyn iddo dderbyn dirprwyaeth o Gymdeithas Cymry Ariannin, yn cynnwys y Llywydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd.

Trefnwyd cyfarfod blynyddol 1946 yng Nghapel Nasareth, Aberpennar, pryd yr anerchwyd gan y Br. Rhys J. Davies, AS, a ddangosodd mor bwysig ydoedd cyfraniad cenhedloedd bychain i wareiddiad yn ei holl agweddau. "Dylid cofio", meddai, "fod poblogaeth y cenhedloedd bychain yn fwy na Rwsia, Ffrainc, Prydain a'r Unol Daleithiau."

Protestiai yn erbyn agwedd y llywodraeth tuag at hawliau sylfaenol Cymru. Yn ôl pob golwg yr oedd Prydain wedi colli'r gelfyddyd o lywodraethu dros eraill. Cyplysodd y gosodiadau hyn â mudiad y Wladfa Gymreig, a oedd yn brotest yn erbyn gormes Llywodraeth estron.

Ni ellir ymhelaethu ar bob cyfarfod blynyddol yma ond rhaid nodi wrth fynd heibio mai ymysg y beddau ym mynwent Eglwys y Tabernacl y cyfarfuwyd yn ystod Eisteddfod Penybont-ar-Ogwr yn 1948 oherwydd bod drysau'r adeiladau i gyd dan glo! Cafwyd anerchiad gan y Parchedig W. Nantlais Williams dan gysgod gwlawlen gan ei bod yn ddiwrnod poeth iawn. Ymhlith yr ymwelwyr yr oedd Mrs E. Rees, Tonypandy, merch y diweddar Evan Pugh, un a fu'n argraffu'r Drafod am flynyddoedd. Mwynhawyd gwrando ar Nantlais yn adrodd ei hanes yn ymweld â'r Wladfa. Dywedodd fod yno frwdfrydedd mawr ynglŷn â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Cafodd gyfle i bregethu o'r wlad hon i'r Wladfa ar y radio, a diddorol oedd ei hanes am hen wraig a oedd yn methu â pheidio â chrio trwy'r bregeth o glywed yr heniaith unwaith eto.

Cyfarfod y cofir yn hir amdano gan y rhai a oedd yn bresennol oedd yr un yn Eisteddfod Llanrwst yn 1951. Daethai rhagor nag arfer drosodd o'r sefydliadau Cymreig yn Ariannin. Cynrychiolid Bro Hydref, Godre'r Andes, gan Mr. David Williams a dau o'r plant. Llawenydd mawr hefyd oedd gweld Mr. David Jones yn bresennol ac yntau yng nghyffiniau'r pedwar ugain oed ac wedi dod drosodd o'r Wladfa (adnabyddid ef fel David Jones, Waterloo). Un o sefydliadau Cymreig Ariannin yw Comodoro Rivadavia, a chynrychiolid y lle hwnnw gan Mr. a Mrs. Herbert Powell Jones, a Mrs. Jones – a adwaenir fel Delyth Llwyd – yn arlunydd o fri.

Anerchwyd gan nifer o bobl ond yr oedd anerchiad Y Br. Ifan Thomas, Golygydd "Y Drafod" yn arbennig iawn. Bachgen heb gael fawr ddim addysg oedd ond aeth i weithio ar ffarm Mr. a Mrs. Morgan Jones, ac yno, ar eu haelwyd, y cymerodd ddiddordeb mewn darllen llyfrau Cymraeg a barddoniaeth. Gan nad oedd ganddo Saesneg aeth Megan, fy chwaer, – a oedd yn gweithio yn Llundain ar y pryd – i'w gyfarfod yn Tilbury a'i roi ar y trên yn Paddington gyda'r siars nad oedd i ddisgyn oddi arni nes cyrraedd Y Bala. Yr oeddem fel teulu yno yn ei ddisgwyl, ac wedi swpera a siarad llawer dyma ni'n ceisio ei berswadio i fynd i'w wely – 'roedd bryd hynny tua 10.30 o'r gloch y nos ac yntau wedi cael diwrnod maith – a gofynnodd:

> "Ble mae Euros Bowen yn byw?"
> "Llangywer," meddwn. "Fe awn â chi yno yfory."

Ond 'doedd amser yn golygu dim iddo, 'roedd eisiau mynd yno y noson honno, a minnau yn

wylaidd yn cysylltu ag Euros Bowen ar y teleffôn, tuag 11 o'r gloch.

"Dewch â chroeso," oedd yr ateb, "mae Mrs. Bowen oddi cartref."

Wedi cyrraedd y peth cyntaf oedd Ifan Thomas ei eisiau oedd rhoi coron Euros Bowen ar ei ben – ac yna dyma fo'n adrodd pryddest y prifardd i gyd oddi ar ei gof – a ninnau yn edrych yn syn arno, ac yn meddwl mewn difrif faint o fechgyn ifainc Cymru a allai wneud hynny.

Dyma grynodeb o'i anerchiad yn y Cyfarfod Blynyddol uchod:

> "Byddaf fi yn meddwl fod y Wladfa a'r Gymdeithas Gymraeg dros y môr yn gofyn gormod ar law Cymru, heb sylweddoli fod ar Gymru angen pob gewyn ar gyfer ei brwydr ei hun, ac ychydig iawn o'r Cymry mewn gwledydd tramor sydd yn sylweddoli fod ganddynt hwythau hefyd eu dyletswyddau tuag at yr Hen Wlad. Peth hawdd iawn ydyw dod yma mewn afiaith, a gollwng dagrau wrth glywed "Gwerin y loes a'r graith" yn canu hen emynau ei beirdd yn orfoleddus a gweld bardd yn cerdded i gyrchu ei goron, ac eistedd yng nghadair a chalon ei genedl ar ddydd o ŵyl, ac yna mynd yn ôl i'r gwledydd, ac anghofio ing a phryder y genedl hon. 'Rwy'n siŵr mai ein gweled yn dod yn ôl a fyddai dymuniad Michael D. Jones – yn edifeiriol erbyn hyn – dod yn ôl i frwydro dros Gymru, oherwydd y mae Cymru mor gaeth heddiw ag ydoedd yn ei ddydd ef, a thynged y genedl a'r iaith yn y fantol. Yn ymarferol fe ddylai pob dyn sydd yn caru Cymru wneud ei ran i gefnogi'r mudiadau am ryddid y genedl Gymreig – cefnogi'r mudiadau hyn yn ariannol ac yn ysbrydol. Y mae gennyf bapur Cymraeg yn y Wladfa, a baich yw ei gynnal, ond ni fynnwn ofyn i'r un Cymro o'r wlad hon fy nghynorthwyo i'w gario ymlaen, y mae gennych ddigon o le yma i gynorthwyo'r papurau newydd a'r llyfrau a gyhoeddir yng Nghymru. Nawddogi y rhai hynny yw eich pennaf ddyletswydd. Un o'r pethau sydd wedi brifo fy nheimladau fwyaf wrth gerdded y wlad hon ydyw cofadeiladau llwyd ac oer a welir bron ar ymyl pob ffordd, ac o flaen llawer capel, ac enwau annwyl iawn wedi eu carfio ar bob un ohonynt. O na fyddai i Gymru gael o leiaf hawl ar fywydau ei phlant. Loes arall oedd gweld Cymru mor ddi-Gymraeg a diolch fod gennym ambell lecyn golau fel yr Eisteddfod Genedlaethol yn ffenestr ar wybren dywyll. Erbyn y tro nesaf y dof yn ôl i Gymru mi garwn weld holl blant y wlad hon "i'w gwlad yn ffyddlon".

Yn fuan ar ôl mynd yn ôl i'r Wladfa bu farw'r Bonwr Ifan Thomas. Rhoddasai wasanaeth amhrisiadwy i'r Wladfa.

Yn wyneb y golled a gafwyd trwy farwolaeth y Parchedig Alun Garner gofynnwyd i'r Parchedig James Nichols, Ffestiniog, ymgymryd â llywyddiaeth y Gymdeithas yn ei chyfarfyddiad yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli 1955 gan ei fod yn un o blant y Wladfa. Croesawyd y Bonwr W. R. Owen o'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, a Syr Ben Bowen Thomas, y naill a'r llall wedi bod ar ymweliad â'r Wladfa yn ddiweddar. Talodd y ddau wrogaeth uchel iawn i'r derbyniad a'r croeso difesur a dderbyniasant yn ystod eu hymweliad. Llawenydd mawr oedd clywed y Bonwr W. R. Owen yn dweud ei fod yn gobeithio dangos – yn yr hydref – dri chwarter awr o ffilm deledu ar fywyd y Wladfa. Hwn fyddai'r tro cyntaf i ymgais gael ei gwneud i gyflwyno disgrifiad o fywyd y Wladfa yn Saesneg; cawsid amryw ddarllediadau Cymraeg gan y Parchedig R. Bryn Williams, M.A., ac eraill. Dylai'r Gymdeithas, meddai W. R. Owen, gynnig gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol

Cymru am basiant ar hanes y Wladfa, ac awgrymodd y gellid perfformio’r buddugol yn ystod yr Eisteddfod yn 1965 pan ddethlid canmlwyddiant y Wladfa.

Apeliwyd ar i’r rhai a ymddiddorai yn y Wladfa i anfon llenyddiaeth yno, megis "Cymru’r Plant" a "Hwyl", ac yn arbennig i anfon llyfrau a fyddai’n ateb chwaeth y genhedlaeth ifanc. Awgrymwyd tybed a fedrai Prifysgol Cymru anfon efrydydd i’r Wladfa i wneud gwaith ymchwil i’w hanes heddiw. Yr oedd pob un o’r siaradwyr yn unfryd unfarn mai bendith fyddai cael gwasanaeth gweinidog neu weinidogion o Gymru yno hefyd. Sicrhawyd y cyfarfod gan yr Ysgrifennydd fod ymdrechion yn mynd rhagddynt yng Nghymru er sicrhau hynny, ond er pob apêl ni bu ymateb.

Nid oedd cofnodion am y cyfarfyddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Aberdâr, 1956, gan na lwyddodd yr Ysgrifennydd ar y pryd i fod yno na sicrhau neb i’w gynrychioli. Yn Eisteddfod Llangefni y flwyddyn ddilynol awgrymodd y Bonwr Geraint Walters, Caerdydd, mai da o beth fyddai trefnu mewn pryd ar gyfer yr adeg pan fyddai’r Wladfa yn dathlu ei chanmlwyddiant. Ei ddymuniad oedd gweld rhai o arweinwyr Cymru yn mynd drosodd adeg y dathlu. Awgrymodd y Fones Valmai Jones y priodoldeb o drefnu ysgoloriaethau i fechgyn a genethod o’r Wladfa fel y gallent ddod drosodd i astudio yn y wlad hon a dychwelyd yn ôl i gyfoethogi bywyd cymdeithasol y Wladfa. Gadawyd iddi hi a’r Bonwr Geraint Walters ddatblygu’r bwriad.

Gan nad oedd yr Ysgrifennydd yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfyddiad yn Eisteddfod Glynebwy yn 1958 ni chadwyd cofnodion ond cafwyd y nodiadau a ganlyn o ddyddlyfr y Fones Valmai Jones yn ddiweddarach:

> "Llywyddwyd y cyfarfod gan y Bonwr James Nichols, Ffestiniog. Croesawyd yn gynnes y Bonwr Morris ap Hughes, bardd adnabyddus o’r Wladfa, am dro yn yr Hen Wlad am y tro cyntaf. Boreu Iau cafodd ei dderbyn i Orsedd y Beirdd (gwisg werdd). Cawsom ei weld ar y teledu yn datgan ei argraffiadau ar ei ymweliad cyntaf a Chymru a’i glywed ar y radio mewn ymgom gyda’r Bonwr R. Bryn Williams a’r Bonwr William M. Evans, Y Fron-goch. Croesawyd y Fones Blodwen Evans o Efrog Newydd, genedigol o Fryn-gwyn, ac yn ymweld â Chymru am y tro cyntaf. Cafwyd sylwadau gan y Parchedig Samwel Morgan a mynegwyd pryder oherwydd y gorlif yn Nyffryn Chubut."

Derbyniwyd adroddiad y Fns. Valmai Jones mewn perthynas â’r cynllun o gael myfyriwr ifanc o’r Wladfa i Gymru i fwynhau ysgoloriaeth a dywedodd iddi fod mewn cysylltiad â’r Br. Einion Evans (Y Cyngor Prydeinig, Caerdydd), Syr Ben Bowen Thomas, a’r Br. Geraint Walters. Methodd â threfnu yr un cyfarfod oherwydd bod galwadau eraill yn rhwystr iddynt ddod at ei gilydd.

Ar faes yr Eisteddfod yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caernarfon, y caed cyfarfod 1959 ac yn y cyfarfod hwnnw fe’m hetholwyd yn ysgrifennydd i gymryd lle’r Parchedig Nefydd Hughes Cadfan a fu wrth y swydd am ugain mlynedd. Pan gyfeiriodd y Bnr. Geraint Walters at yr ysgoloriaethau y gobeithid eu trefnu dywedodd y Br. Einion Evans mai un o’r anawsterau fyddai’r costau teithio. Credai ef y gellid cael cymorth, o bosib, gan y Cyngor Prydeinig. Yn y cyfarfod hwn llongyfarchwyd y Br. R. Bryn Williams, M.A., am ennill ysgoloriaeth Leverhulme i’w alluogi i wneud ymchwil yn y Wladfa.

Erbyn 1960 cawn fod y Gymdeithas yn cyfarfod yn Y Bala, a hynny ar y 9fed o Orffennaf,

a'r tro hwn i ddathlu Gŵyl Annibyniaeth Ariannin a chael aduniad o'r rhai a fu'n byw yn y Wladfa. 'Roedd y Bnr. R. Bryn Williams wedi dychwelyd erbyn hyn a dangosodd 400 o ddarluniau lliw a dynasai o berthnasau, cyfeillion a golygfeydd. Cafwyd cyfle hefyd i wrando ar recordiau a wnaethai o bobl y Wladfa a'r Andes mewn nosweithiau llawen a chyngherddau. Cafwyd noson lawen fin nos y tro hwn a recordiwyd y cyfan er mwyn eu hanfon i'r Wladfa.

Cofnod o gyfarfyddiad yn Y Bala sydd eto am 1961 a phenderfynwyd cael cyfarfod swyddogol y Gymdeithas yn Y Bala o hynny allan a threfnu ymgom yn y babell ar faes Eisteddfod y Rhos a hefyd i gael cinio i bawb. Penderfynwyd hefyd roi cyfraniad o £5 ar gyfer anfon llyfrau canu i'r Wladfa. Gwnaed recordiad o'r cyfarfod hwn hefyd er mwyn ei anfon i'r Wladfa.

Yn Festri Capel yr Annibynwyr yn Y Bala, a hynny ar yr 8fed o Fehefin y caed y cyfarfyddiad yn 1962 a phenderfynwyd anfon recordiau Cymraeg i'r Wladfa yn ogystal â'r recordiad o'r cyfarfod arbennig hwn.

Caed cyfarfod 1963 eto yn Y Bala a dyna pryd y dymunodd y Bnr. James Nichols gael ei ryddhau o'r Gadeiryddiaeth ac yr etholwyd y Fns. Valmai Jones yn ei le. Gofynnwyd iddi ysgrifennu at y Bnr. Dan Lewis ynglŷn ag argraffu llyfr diweddaraf y Bnr. R. Bryn Williams a hefyd i ofyn i'r Bnr. P. A. L. Jones, Aberystwyth, a fuasai'n barod i ymgymryd â chyfieithu'r llyfr i'r Sbaeneg erbyn blwyddyn dathlu'r canmlwyddiant. Un o'r penderfyniadau hefyd oedd i estyn gwahoddiad i nifer o arweinwyr Cymru i gyfarfod arbennig ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llandudno, fis Awst y flwyddyn honno i drafod y dull mwyaf addas o ddathlu canmlwyddiant y Wladfa yn 1965.

Yn y cyfarfod hwn yr awgrymodd y Fns. Valmai Jones i'r Gymdeithas gyflwyno tarian fel gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1965 a hynny fel coffhad am yr ymfudiad i'r Wladfa. Pan gyfarfu aelodau'r Gymdeithas ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llandudno ymhen y mis cafwyd adroddiad am y trefniadau a wnaed y bore hwnnw ym mhabell y BBC (ar wahoddiad y Bnr. Alun Oldfield Davies) ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y dathlu yn 1965.

Nifer fechan o aelodau a gyfarfu yn y Bala yng Ngorffennaf 1964 a phenderfynwyd yn ystod y cyfarfod i anfon cylchlythyr at yr aelodau yn gofyn iddynt fynegi eu barn ynglŷn â chael aduniad yn 1965 ym Mhantyfedwen. Bryd hyn hefyd y gwnaed apêl gan y Bnr. R. Bryn Williams am gerddoriaeth ac emynau gwladfaol i'w cynnwys mewn llyfryn oedd i'w gyhoeddi gan Bwyllgor Cartref Dathlu'r Canmlwyddiant. Ceir nodyn rhwng cromfachau yn y cofnod hwn mai nifer fach a werthwyd a bod y golled yn £200. Penderfynwyd hefyd fod y tal aelodaeth am y flwyddyn ddilynol i fod yn ddeg swllt a chwe cheiniog dros gyfnod y dathlu ac mai coron (pum swllt) fyddai'r lleiafswm o hynny allan.

DATHLU CANMLWYDDIANT Y WLADFA

Valmai Jones

Pan drafodwyd y syniad o ddathlu canmlwyddiant sefydlu'r Wladfa ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni yn 1957 awgrymwyd pererindod i'r Wladfa a soniodd un neu ddau am gael llong hwyliau tebyg i'r Mimosa i hwylio arni tua'r De fel y gwnaeth y Cymry cyntaf gan ail-fyw y fordaith yn ei holl agweddau.

Maes o law penderfynwyd mai doeth a phriodol fyddai gwahodd nifer o Gymdeithasau ac arweinwyr y genedl i ymuno yn y dathlu gan y teimlid fod ein Cymdeithas ni yn rhy fach i wynebu bwriad o'r maint hwn a chaed cyfarfod dan lywyddiaeth y Bonwr Alun Oldfield Davies.

Canlyniad y cyfarfyddiad hwn fu ethol pwyllgor swyddogol i weithredu dros gyfnod y dathlu. Dyma'r swyddogion:

Llywydd:
Is-lywyddion:
Y Fonesig Megan Lloyd George, A.S.
Arglwydd Faer Caerdydd, Cadeirydd Cyngor Cymru a Mynwy
Charge d'Affaires Ariannin yn Llundain
Yr Archdderwydd Cynan
Dr. Huw T. Edwards
Syr Ifan ab Owen Edwards
Dr. Dilwyn John
Y Fns. Valmai Jones
Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Morris, Borth-y-gest Syr David Hughes Parry
Dr. Thomas Parry
Syr Thomas H. Parry-Williams
Syr Ben Bowen Thomas
Syr J. L. C. Cecil-Williams

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith: Y Br. Alun Oldfield Davies

Cadeirydd yr Is-bwyllgor Tramor: Y Br. J. Alban Davies

Trysorydd: Y Br. Alwyn Hughes Jones

Ysgrifenyddion: Y Br. T. Elwyn Griffiths
Y Br. W. R. Owen

Cyfetholwyd y Br. R. Bryn Williams a minnau ar y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Lleol fel ymgynghorwyr ac etholwyd pwyllgorau lleol yn Y Bala (Ysgrifennydd: Y Br. Meirion Jones); yng Nghaernarfon: Y Br. E. Beynon Davies; yn Lerpwl y Br. Edwin Jones; yn Aberdâr y Br. Idwal Rees; ym Methesda y Br. Dafydd Orwig. O hyn ymlaen dechreuwyd o ddifrif ar weithgareddau'r dathlu.

PERERINDOD I BATAGONIA

Etholwyd y Br. W. R. Owen (BBC), Ysgrifennydd Tremor y Pwyllgor Gwaith, yn Drefnydd Swyddogol y Bererindod, dan nawdd Cymdeithas Cymry Ariannin ym Mhrydain.

Codwyd pabell ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Abertawe (1964) – yr eisteddfod yr enillodd R. Bryn Williams y gadair am ei awdl i Batagonia – i dynnu sylw'r cyhoedd y byddai dathlu yn 1965. Dosbarthwyd llyfryn wedi ei ysgrifennu gan R. Bryn Williams yn rhoi crynhoad byr yn y Gymraeg a'r Saesneg o'r ymfudiad. Ymhen ychydig wythnosau derbyniwyd nifer dda o geisiadau yn holi am ragor o fanylion am y bererindod. Yn ychwanegol at hyn gwahoddwyd y sefydliadau cenedlaethol i anfon cynrychiolydd i'r Wladfa.

Dyma restr derfynol o'r teithwyr a aeth ar y bererindod a adawodd am y Wladfa ar Hydref 25 1965, o faes awyr Heathrow:

Mrs. Elizabeth Bere, Y Barri.
Miss Justina Bevan, Abertawe.
Mrs. Anne M. Boumphrey, Y Rhyl.
Dr. Elwyn Davies, Caerdydd.
Miss Eva Davies, Caerefrog.
Mr. Gethyn Davies, Llundain.
Dr. Jenkin Alban Davies, Llanrhystyd.
Miss Rachel Mary Davies, Grovesend, Abertawe.
Mrs. Gertrude E. Dodd, Y Rhyl.
Dr. Huw T. Edwards, Yr Wyddgrug.
Mrs. Maud Edwards, Pentre Bychan, Wrecsam.
Miss Heulwen Ellis, Llys Meddyg, Dinbych.
Miss Mali Evans, Abergwaun.
Miss Gwendoline Ffoulkes, Y Fflint.
Miss A.M. Francis, Croesoswallt.
Mrs. Nan Griffiths, Llandaf.
Mr. T. Elwyn Griffiths, Caernarfon.
Mr. John Griffiths, Ystradgynlais.
Mr. Merfyn Hale, Bangor.
Mr. Desmond Healy, Y Rhyl.
Mr. T. G. G. Herbert, Aberaeron.
Mrs. Eulfwyn Walters Weston, Caerdydd.
Mr. Alwyn Hughes-Jones, Caernarfon.
Mr. George Barrie Humphreys, Llanfechain.
Miss Muriel Jones, Rhuddlan.
Mrs. Cathrine Jane Jones, Llundain.
Mr. J. S. Jones
Mr. Frank Price Jones, Bangor.
Mrs. Ann John, Clunderwen.
Miss Eluned Jones, Y Groeslon.
Mr. Robin Gwyndaf Jones, Cerrigydrudion.
Mr. a Mrs. Tom Jones, Llanuwchllyn.
Dr. Owen Lewis Jones a Mrs. Jones, Cricieth.
Mrs. Helen Lewis, Rhuddlan.

Mr. a Mrs. Llewelyn J. Lewis, Abertawe.
Miss Olwen Lewis, Ynys Môn.
Mr. W. P. Lloyd-Jones, Tregaron.
Dr. J. H. Marshall-Lloyd, Tywyn, Meirionnydd.
Miss Annie Morgan, Blaen-plwyf, Aberystwyth.
Mr. Thomas Owens, Llangefni.
Mr. W. R. Owen, Bangor.
Miss Eleri Owen, Llanelli.
Mr. a Mrs. John Pritchard Jones, Talysarn, Arfon.
Miss Gwen Pritchard Jones, Talysarn, eto.
Mr. Richard Parkhouse, Caerdydd.
Miss Dilys E. Quick, Abertawe.
Mr. John Roberts, Y Groeslon.
Mr. Stanley Rees-Hughes, Llundain.
Miss Cathrine Richards, Hengoed.
Miss Gladys Olive Richards, Bwlch-gwyn, Wrecsam.
Mr. a Mrs. Herbert Richards, Caerffili.
Mrs. C. Elizabeth Rowson, Harrow.
Miss Sarah Rees, Casllwchwr, Abertawe.
Miss Olwen Stent, Llundain.
Mrs. Jennie Thomas, Aberystwyth.
Mr. W. J. Thomas
Mr. R. Bryn Williams, Aberystwyth.
Mr. John Elwyn Watkins, Abertawe.
Mr. Tudur Watkins, A.S., Aberhonddu.
Mrs. Olwen Walters, Caerdydd.
Miss Eunice Miles Williams, Hengoed.
Miss Mary Ellen Williams, Amlwch.
Mrs. Susie Williams, Bargoed.
Mr. Dafydd Wigley, Hornchurch, Essex.
Mr. Goronwy Williams, Ystradgynlais.
Miss G. G. Williams, Abertawe.
Miss Kathleen G. Williams, Bradford.

Trefnodd y Cyngor Prydeinig ym Mhrydain fod y telynor Osian Ellis hefyd yn mynd i Dde America yn ystod y flwyddyn 1965 i gadw cyngherddau yn Buenos Aires a gwahanol ardaloedd ym Mhatagonia. Aeth Mrs. Ellis gydag ef a chawsant dderbyniad tywysogaidd ym mhob man.

Aeth y Br. Hywel Hughes (Don Hywel), a'i fab Rowlant, Bogota, Colombia hefyd i'r dathlu.

Y DATHLU YNG NGHYMRU

Penderfynodd y Pwyllgor Dathlu yng Nghymru wahodd pedwar o ymwelwyr o'r Wladfa i gyfranogi yn y dathlu a wneid yng Nghymru, a chynigiodd y Cyngor Prydeinig ddwy ysgoloriaeth i ddau o'r Wladfa yn ystod y flwyddyn. Dewiswyd y bobl ifainc hyn gan bwyllgor arbennig yn Nhalaith Chubut, sef Y Bonwr Geraint Edmunds a'r Bonwr W. Jose Weber (a daeth eu gwragedd drosodd hefyd).

Trefnwyd rhaglen faith ar eu cyfer gyda'r pwyslais ar yr hyn a ystyrid o ddiddordeb a

defnyddioldeb addysgiadol, cymdeithasol a diwylliannol.

CAERNARFON

Dechreuwyd y dathlu yn Festri Seilo, Caernarfon, am 7 o'r gloch nos Iau, Mai 27 1965, ac yn ystod y cyfarfod talwyd teyrnged i Lewis Jones, un o feibion tref Caernarfon, a ddaeth yn brif arloeswyr y mudiad i greu'r Wladfa. Llywydd y cyfarfod oedd y Br. R. Bryn Williams. Yn ei anerchiad gwnaeth sylw neilltuol o'r pwysigrwydd o gadw ar gof aberth a dewrder mawr mintai llong y Mimosa a'u cyfraniad helaeth i ddiwylliant Talaith Chubut.

Y BALA

Trannoeth, Mai 28, cafwyd dathlu yn Y Bala. Yn y prydnawn cafwyd anerchiad ar "Michael D. Jones" gan yr Athro Alun Davies, Abertawe. Ar ôl y ddarlith aethpwyd ar bererindod at ei fedd ym mynwent yr Hen Gapel, Llanuwchllyn. Cafwyd gwasanaeth ac anerchiad byr gan y Parchedig Gerallt Jones a gosodwyd torch o flodau ar y bedd. Trefnwyd y rhan hon o'r dathlu gan Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion.

Yn yr hwyr, am 7.30 o'r gloch, cafwyd cyngerdd amrywiol yn Neuadd Ysgol y Berwyn. Ar wyneb y rhaglen yr oedd llun o Michael D. Jones, ei law yn pwyso ar ffon hir, ei het gopa ar ei ben, ei farf wen ar ei frest a "poncho" – math o wrthban o waith Indiaid Patagonia – ar ei ysgwydd chwith. Caed eitemau o ganu ac adrodd ac anerchiadau rhagorol. Llywydd y cyfarfod oedd Y Br. T. Elwyn Griffiths, Ysgrifennydd Undeb y Cymry ar Wasgar, a hefyd Ysgrifennydd Cartref y Dathlu. Arweiniwyd gan Y Parchedig Huw Jones.

LERPWL

Y dathlu yn Lerpwl oedd y mwyaf uchelgeisiol. Bu'r trefniadau niferus yng ngofal yr Ysgrifennydd Lleol, Y Br. Edwin Jones, a chafodd gefnogaeth a chymorth gwerthfawr Cymdeithasau Cymraeg Glannau Mersi. Llogwyd llong y "Royal Daffodil II" a hwylio i fyny afon Mersi gyda'r hwyr er mwyn ceisio ail-fyw profiad y fintai gyntaf a hwyliodd o Lerpwl.
Cyn hwylio cafwyd te croeso i swyddogion Pwyllgor Cenedlaethol y Dathlu ac aelodau Cymdeithas Cymry Ariannin ar fwrdd y llong "Landfall". Croesawyd y gwahoddedigion gan Y Br. Edwin Jones ac ar ôl y Te cyflwynodd yr Henadur D. J. Lewis dorch o flodau dros Ddinas Lerpwl i H. Humphreys Jones, Llywydd Pwyllgor Dathlu Lerpwl. I orffen cafwyd gair o ddiolch gan Y Br. Alun Oldfield Davies.

Aethpwyd wedyn ar fwrdd y llong "Royal Daffodil II" ym mhle yr oedd dros bymtheg cant o Gymry (1,500) wedi ymgynnull. Yr oedd cynifer hefyd wedi ymgynnull ar y lan i wylio'r seremoni, ac am 6.30 o'r gloch y prydnawn hwyliodd hithau i fyny'r Afon.

'Roedd y trefniadau fel a ganlyn:

Caed gwasanaeth i gychwyn ar ei bwrdd dan arweiniad y Parchedig Nefydd Hughes Cadfan, M.A., Llangynog, – gynt o'r Wladfa. Yr oedd ei daid, Hugh Hughes (Cadfan Gwynedd) yn un o brif arweinwyr y mudiad gwladfaol a'i dad yn fachgen ifanc ymysg yr ymfudwyr cyntaf. Darllenodd hefyd – allan o lyfr Abraham Mathews – ddisgrifiad o hanes y "Mimosa" yn cychwyn o Lerpwl. Darllenwyd rhan o'r ysgrythur gan y Parchedig Trebor Mai Thomas, B.A., B.D., Treffynnon, a ddaethai hefyd yn llanc ifanc o'r Wladfa. Bu'n genhadwr yn India am flynyddoedd cyn dod yn ôl i Gymru. Ar ôl y Fendith cafwyd seremoni o ollwng torchau o

flodau melyn y mimosa ar y dŵr, a minnau, Valmai Jones, Caergwrle, fel Cadeirydd Cymdeithas Cymry Ariannin ym Mhrydain, a ollyngodd y gyntaf gyda'r mynegiant a ganlyn:

> "Y blodau hyn sydd arwydd o gariad a pharch i goffadwriaeth y Cymry cyntaf a adawodd y porthladd hwn gan mlynedd yn ôl a'u hwynebau ar wlad bell ddieithr. Nid oes yr un ohonynt yn fyw i glywed a gweld y deyrnged hon, dim ond cof amdanynt sydd yn aros a bydd hwnnw yn fyw o hyd.
>
> Tra yn eu cofio heddiw, cofiwn hefyd am wlad fawr Ariannin a'u derbyniodd fel y derbynia pob dyn a dynes o ewyllys da. Yno yr agorasant ddrysau gwareiddiad a datblygiad yn y fan a elwir heddiw yn Dalaith Chubut.
>
> Mintai ddewr y Mimosa fach,
> Sylfaenwyr ein Gwladfa ni,
> Fe chwydda'n bron y funud hon
> O hiraeth amdanoch chwi. (Iâl)
>
> Aed y blodau hyn gyda'r lli er cof amdanoch."

Darllenais hefyd gyfieithiad Sbaeneg a Saesneg o'r geiriau uchod a gollyngwyd tair torch arall gan dair o'r merched ifainc o Ariannin a ddaethai drosodd ar gyfer y Dathlu, sef: Silvia Jones, Buenos Aires; Eileen James Jones a Doreen Williams o Chubut, a hynny fel teyrnged arbennig i famau y Wladfa.

Arweinydd y gweithgareddau ar y bwrdd oedd y Parchedig Huw Jones, B.A., B.D., Y Bala. Y Cyfeilydd oedd Miss Olwen Hughes a'r Delynores oedd Miss Margaret Williams. Canwyd nifer o emynau'r cyfnod rhwng yr eitemau dan arweiniad y Bonwr Elfed Owen.

Daeth bonllef fyddarol o gymeradwyaeth o bob cwr pan gododd y Bonwr Owen Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Dathlu yn Lerpwl, y ddraig goch i gopa'r hwylbren, a chanodd y gynulleidfa yr un emyn ag a ganodd mintai'r Mimosa pan adawsant lannau Mersi gan mlynedd ynghynt, ar yr alaw "God save the Queen".

Creawdwr daear lawr
Llywiawdwr bydoedd mawr
A'n cadarn Iôr.
Bydd di yn nawdd o hyd
Ac amddiffynfa glyd
I Gymry dros y byd
Ar dir a môr.

Ni gawsom wlad sydd well
Yn y Deheudir pell,
Patagonia yw.
Cawn yno fyw mewn hedd,
Heb ofni brad na chledd
A Chymro yn y Sedd,
Boed mawl i Dduw

Cafwyd datganiad hyfryd iawn o "Awdl Patagonia" (R. Bryn Williams); "Ffarwel i Blwy' Llangower"; "Tra bo dau", ac "Arglwydd Iesu arwain f'enaid" (Eben Fardd) ar y don "Dim ond Iesu" gan Barti Meibion Penbedw (dan arweiniad y Br. Elfed Owen).

Cyflwynodd Mrs. Eiddwen Humphreys, Ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin, yr ymwelwyr ifainc o Ariannin: Mrs. Eileen James Jones, Miss Doreen A. Williams, Miss Silvia Jones, Mr. Geraint Edmunds, Mr. Jose Weber, Mr. Elvey MacDonald a Mr. Osian Hughes. Cafwyd caneuon gan Mrs. Gwladys Lloyd Williams – "Gŵyl y Glaniad (Iâl) ar y dôn "Bugeilio'r Gwenith Gwyn" ac "Yn iach i ti Gymru". Gwisgai hi ddillad cyfnod yr arloeswyr

yr un fath ag aelodau glandeg genethod parti Aelwyd De Lerpwl a chafwyd datganiad gwych iawn ganddynt hwythau hefyd o ddetholiad o Awdl R. Bryn Williams. Daeth Parti Dawns Aelwyd yr Wyddgrug a chyfraniad lliwgar ac ysgafndroed gyda'r ddawns "Meillionen" a "Ceiliog y rhedyn". Yna cafwyd eitemau gan yr ymwelwyr o Batagonia, sef caneuon traddodiadol efo'r gitâr gan Osian Hughes; Jose W. Weber a Mrs Weber; Elvey MacDonald a Mrs. Eileen James Jones. Diweddwyd gyda dwy gân swynol iawn gan y Bonwr Alwyn Jones sef "Beto Siân" (cerdd dant) a "Gwenno Pen y Gelli" (can werin).

Wrth ddychwelyd i'r lanfa canwyd yr emyn "Cofia'n Gwlad" a "Hen Wlad fy Nhadau".

Yn Rhaglen y Dathlu yn Lerpwl ceir darlun o Williamson Square, Lerpwl, yn 1868. Yn siop 22, Owen a John Edwards, Boot Maker, y bu pwyllgora yn 1861 i hyrwyddo Sefydlu'r Wladfa. Hefyd allan o'r "Liverpool Daily Post", Mai 30 1865 – newyddion yn dweud bod y "Mimosa Reperell" – Mai 28 – wedi hwylio i Batagonia.

Yn y rhaglen hon hefyd ceir manylion yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng Lerpwl a'r ymfudo i Ariannin.

Ar yr achlysur arbennig hwn gwisgai'r gwahoddedigion a'r ymwelwyr o'r Wladfa dusw bychan o flodau'r Mimosa wedi eu clymu â rhuban glas a gwyn, lliw baner Ariannin. Cawsant eu gwneud gan Mrs. Flavia Jones Whitley, Tan-y-fron, ger Wrecsam. Ganwyd hi yn y Wladfa, a chafodd help gan ei nithoedd Arianina a minnau. Prynodd Pwyllgor Dathlu Lerpwl y blodau hyn ac anfonwyd yr arian i Goleg Camwy, Gaiman, gan ofyn iddynt ei ddefnyddio at rywbeth buddiol i'r Coleg. Gwnaed yr un peth erbyn ymadawiad y pererinion o Lundain.

CYMANFA GANU YNG NGHAERNARFON

Cyfrannodd Caernarfon eto i'r Dathlu gyda Chymanfa Ganu Undebol y tro hwn, ddydd Sul Mai 30. Fe'i cynhaliwyd yn Eglwys Engedi dan arweiniad G. Peleg Williams, Caernarfon, gan ddechrau am 6 o'r gloch. Llywydd y noson oedd y Parchedig Ieuan S. Jones (Salem). Y gŵr gwadd oedd y Bonwr Goronwy Roberts, A.S. (y Gweinidog Gwladol dros Gymru), a chafwyd anerchiad pwrpasol iawn ganddo. Cafwyd canu bythgofiadwy a'r capel yn orlawn. Canwyd dau emyn a gyfansoddwyd yn y Wladfa, sef "Hiraeth" a "Dolgarrog".

Funudau cyn y Gymanfa Ganu dadorchuddiwyd carreg goffa y tu allan i Eglwys Engedi gan y Bonwr Osian Hughes o'r Wladfa. Yr oedd y geiriau canlynol wedi eu cerfio ar y plac:

> "Mewn ystafell yn y capel hwn, yn 1856, y trafodwyd gyntaf yng Nghymru y syniad o Wladfa Gymreig ym Mhatagonia."

Y DATHLU YM MANGOR

O Fai 31 hyd at Fehefin 8 tro Pwyllgor Lleol Bangor oedd trefnu'r dathlu a'r rhaglen drwyddi draw yn enghraifft dda o drefniadaeth fanwl.

Y DATHLU YN ABERDÂR

Dydd Gwener, Mehefin 18, cafwyd cyfarfod wedi ei drefnu gan yr Ysgrifennydd Lleol, y Br. Idwal Rees. Dyma'r ardal a gyfrannodd fwyaf o ran nifer o bobl i'r fintai gyntaf. Gwahoddwyd Syr Ben Bowen Thomas i annerch y cyfarfod a gwnaeth hyn yn rymus ac

effeithiol, yr oedd yn gwybod am y Wladfa a'i phobl gan iddo fod yno am dro yn y flwyddyn 1954. Cafwyd hanes cysylltiad y fro a'r ymfudo i sefydlu Gwladfa Gymreig gan y Parchedig Glannant Jones. Arweinydd y cyfarfod oedd y Br. Alun Oldfield Davies. Talodd deyrnged i ddewrder a ffydd y Cymry cyntaf ac i ddyfalbarhad a pharch eu disgynyddion yn eu hymgais i gadw eu coffadwriaeth yn fyw o hyd. Dros yr ymwelwyr o Batagonia atebodd y Br. Elvey MacDonald, yr ieuengaf o'r chwech, a gwnaeth hyn mewn geiriau syml cywir iawn. Derbyniodd darian fechan gan y pwyllgor lleol i gofio'r achlysur.

MEHEFIN 8-14, EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU YNG NGHAERDYDD

Yma y cafodd yr ymwelwyr ifainc o'r Wladfa flas ar weithgareddau Urdd Gobaith Cymru a theimlo gwresogrwydd croeso swyddogion yr Urdd a nifer luosog o gyfeillion caredig Prifddinas Cymru. Yma hefyd y cyflwynodd Cymdeithas Cymry Ariannin ym Mhrydain Darian y Canmlwyddiant i'r Fonesig Edwards. Cafwyd seremoni'r cyflwyno ar lwyfan yr Eisteddfod ddydd Gwener, Mehefin 11eg, yng ngwydd yr ymwelwyr arbennig, y Parchedig D. D. Walters, ei ferch Eulfwyn, a minnau a Mrs. Eiddwen Humphreys, Y Bala, Ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin, a fu'n aelod o Gangen Urdd Gobaith Cymru yn y Wladfa, yn cyflwyno'r darian i'r Fonesig Edwards. Gwaith y Br. John Oswald Jones, Buenos Aires, ydyw'r darlun sydd ar y darian, un hanner yn portreadu golygfa yng Nghymru, a'r llall yn olygfa o Ariannin. Gwnaed y darn metel hwn sydd yng nghanol y darian yn Ariannin.

Cyflwynir y tlws hwn bob blwyddyn yn wobr i'r ail sir uchaf ei marciau yn holl waith yr Eisteddfod. Gorllewin Morgannwg gyda 212 o farciau a enillodd y darian y flwyddyn honno. I gloi'r seremoni hon canwyd emyn cenedlaethol Ariannin yn Sbaeneg gan Gôr Aelwyd Caerdydd dan arweiniad y Br. Alun Guy.

Ar ôl yr Eisteddfod cafodd yr ymwelwyr o Ariannin dreulio wythnos gyfan yng Nghaerdydd a chyfle i weld y ddinas, i ymweld â Sain Ffagan, yr Amgueddfa Genedlaethol, Cwm Rhondda, a nifer o ardaloedd eraill. Wedyn cawsant dreulio wythnos gyfan gyda'u perthnasau a'u ffrindiau yng Nghymru.

O FEHEFIN 28 HYD AT ORFFENNAF 5 trefnodd CYLCH CINIO ABERTAWE wythnos arall ar gyfer yr ymwelwyr ifainc o'r Wladfa. 'Roedd y rhaglen honno wedi ei threfnu mewn cydweithrediad â'r Bonwr Ieuan Williams, Coleg y Brifysgol yno.

EISTEDDFOD GYDWLADOL LLANGOLLEN

Trefnwyd i'r ymwelwyr arbennig o'r Wladfa gael mwynhau Eisteddfod Gydwladol Llangollen. Sicrhawyd tocynnau a llety iddynt trwy'r wythnos a dydd Sul cawsant seibiant gyda chinio a the yn ein cartref ym Mryn Iâl ac i'r Gymanfa Ganu yn Llangollen yn yr hwyr.

ABERYSTWYTH

Yn ystod Gorffennaf 12-19 trefnwyd wythnos i'r ymwelwyr yn Aberystwyth, y rhaglen a'r trefniadau yng ngofal y Br. R. Bryn Williams gyda chymorth y Bonwr Alwyn D. Rees, Coleg Prifysgol Cymru. Cafwyd cyfle iddynt weld y Llyfrgell Genedlaethol, Coleg y Brifysgol, a Sir Aberteifi.

SIOE AMAETHYDDOL CYMRU, LLANFAIR YM MUALLT

Aethpwyd o Aberystwyth i Lanfair ym Muallt i dreulio'r wythnos yn Sioe Amaethyddol Cymru. Yr oedd y trefniadau yn nwylo'r Bonwr J. A. George, Ysgrifennydd y Sioe, a bu yn ddyfal a charedig yn sicrhau tocynnau a llety. Oddi yma aethant i dreulio wythnos yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, Y DRENEWYDD

Yr oedd dylanwad y dathlu yn gryf yma hefyd. Neilltuwyd lle i'r ymwelwyr ifainc o'r Wladfa ar y llwyfan ddiwrnod y croeso i'r Cymry oddi cartref. Y Bonwr Geraint Wyn Walters (Geraint o Gaiman) a gafodd yr anrhydedd o arwain y Cymry ar Wasgar y tro hwn, a gwisgo tlws ifori cerfiedig, rhodd y diweddar R. Gwilym Roberts, Buenos Aires, i awdurdodau'r Eisteddfod yn 1951 ac sydd yn cael ei wisgo gan arweinydd y Cymry oddi cartref bob blwyddyn ar ôl hynny. Cynan a awgrymodd gyfansoddiad y tlws a'r Br. R. L. Gapper a'i cynlluniodd. Mae'n darlunio Branwen – yn chwedl y Mabinogi – yn dysgu'r drudwy i siarad â'i anfon dros y môr i Gymru gyda'i neges i'w cheraint. Ar y llwyfan hefyd yr oedd Mr. a Mrs. Andrew Philip a'u merch Loraine o Buenos Aires; Mrs. Gwenonwy Berwyn de Jones a'r Bonwr Fred Green o Drefelin ger yr Andes. Derbyniodd yr ymwelwyr bob un groeso cynnes Cymdeithas Cymry Ariannin ym Mhrydain yn eu cyfarfod blynyddol ar faes yr Eisteddfod. Cafwyd yma gyfle i edmygu'r fedal aur a dderbyniodd Mrs. Gwenonwy Berwyn de Jones a'r Parchedig Nefydd Hughes Cadfan gan Lywodraeth Talaith Chubut, fel wyrion i ddau o'r sefydlwyr cyntaf. (Cyflwynwyd medal aur i bob un o'r wyrion sydd ar ôl).

Gwahoddwyd Llysgennad Ariannin i'r cyfarfod ond anfonodd ei charge d'affaires i'r Eisteddfod yn ei le. Cafodd groeso teilwng gan Syr Thomas Parry-Williams a'r Fns. Amy Parry-Williams a chyfle i fwynhau rhai eitemau ar lwyfan yr Eisteddfod.

Uchafbwynt wythnos yr Eisteddfod yn y Drenewydd oedd y perfformiad o "Drws Gobaith", stori'r Wladfa a ysgrifennwyd gan y Prifardd R. Bryn Williams a'r Bonwr Wilbert Lloyd Roberts (yntau hefyd yn cynhyrchu'r cyflwyniad).

Yr oedd 120 yn cymryd rhan yn y ddrama gan gynnwys yr ymwelwyr ifainc o'r Wladfa. Hyn a ddywedodd un a welodd y perfformiad godidog hwn: "Dyma un o'r pethau mwyaf gorchestol a welais i erioed ar lwyfan y genedlaethol", a "dim ond actorion o Gymry a allai ei pherfformio mor drydanol a gwefreiddiol." Cynhaliwyd y Pasiant yn Neuadd y Sir yn y Drenewydd ar Awst 5 a 6 a chafwyd perfformiad ychwanegol mewn ymateb i geisiadau lawer, brynhawn dydd Gwener, Awst 6, am 3.30 o'r gloch.

Ar faes yr Eisteddfod yn y Drenewydd cafwyd tableau gwreiddiol a lliwgar a gynhyrchwyd gan Aelodau Clwb y Ffermwyr Ifainc, Aberhafesb, yn portreadu bywyd y sefydlwyr cyntaf yn y Wladfa.


COLEG HARLECH

Yn ystod Awst 9-15 gwahoddodd Awdurdodau Coleg Harlech yr ymwelwyr o'r Wladfa i ddilyn Cwrs Cymraeg yr Ysgol Haf a oedd yng ngofal y Bonwr Geraint Wyn Jones.

GWERSYLL GLAN-LLYN

Yn ystod Awst 15-20 treuliwyd wythnos yng Ngwersyll Glan-llyn ar wahoddiad Yr Urdd a chafwyd cyfle hefyd i ffarwelio a'r Bala. Yr oedd y trefniadau yng ngofal y Br. Elwyn Hughes.

Oddi yno, ar Awst 22, daeth yn amser i droi'n ôl i'r Wladfa, eu calonnau yn orlawn o ddiolch i bawb a fu mor hynod o garedig a chroesawgar tuag at bob un ohonynt tra buont yma.



Ifan Thomas – Golygydd "Y Drafod" a gyhoeddid bryd hynny yn wythnosol. Bu farw'n fuan wedi ei ymweliad ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanrwst, 1951.



Dathlu Gwyl y Glaniad, Y Bala 1960. *LLUN: Eifion Evans, Y Bala.*



Croesawu pobl ifainc o'r Wladfa, 1965.




Cyflwyno Tarian Canmlwyddiant i'r Urdd, 1965. *LLUN: Western Mail.*



Mintai o'r Wladfa yng Nghymru, 1975.



Dadorchuddio plac i gofio Michael D. Jones yn Llanuwchllyn, 1975.



Aeron Hughes a'i briod; Rene a'i fam, ac Eiddwen. *LLUN: Eifion Evans.*

# CYMDEITHAS CYMRY LLUNDAIN

Valmai Jones

Ymhell cyn blwyddyn y dathlu penderfynodd Cymdeithas Cymry Llundain roi sylw arbennig i'r achlysur. Etholwyd pwyllgor i wneud y trefniadau.

Y Bonwr Peter Lloyd, Ysgrifennydd Mygedol y Gymdeithas, gyda nifer o gydweithwyr brwdfrydig, fu'n gyfrifol am y gwaith a'r paratoadau niferus. Yn gyntaf oll penderfynwyd cael Cyngerdd Mawreddog yn Neuadd Albert nos Sadwrn, Mawrth 6 1965, i gofio Nawddsant Cymru a'r glanio cyntaf ym Mhorth Madryn. Penderfynwyd hefyd wahodd i'r dathlu hwn bob un o'r Cymry oedd wedi eu geni neu wedi byw yn y Wladfa ac yn awr yn byw ym Mhrydain. Gyda chydweithrediad Cymdeithas Cymry Ariannin llwyddwyd i ddod o hyd i dros drigain ohonynt.

Cafodd y syniad o wahodd rhywun o'r Wladfa i gynrychioli pobl Chubut sylw anghyffredin. Awgrymwyd enwau nifer o rai gwir deilwng, yn ddynion a merched, a chrybwyllwyd y ddwy chwaer, Miss Tegai Roberts a Mrs. Luned Fychan Roberts de Gonzalez, gorwyresau Michael D. Jones a Lewis Jones; hefyd Mrs. Irma Hughes de Jones, Golygydd "Y Drafod", ond yn anffodus nid oedd amgylchiadau yn caniatáu iddynt deithio mor ddirybudd. Ar y funud olaf cefais y fraint a'r pleser o awgrymu dod a'r Fones Silvia Jones o Buenos Aires, merch Mr. a Mrs. Herbert Powell Jones a gorwyres i Richard Jones a aeth i'r Wladfa yn y Mimosa efo'i rieni ac yntau yn 20 oed. Yn fuan ar ôl hynny priododd â Miss Hannah Davies oedd a'i theulu hithau ar y Mimosa. Pan gyrhaeddodd y gwahoddiad i Buenos Aires yr oedd Silvia ar ei gwyliau yng nghartref ei nain, Mrs. Barbara Llwyd, ym Mryn Gwyn. Bu cyffro mawr ac yn sydyn yr oedd Silvia ar yr awyren yn teithio i'r Brifddinas ac yn ymbaratoi i fynd i Lundain. Diddorol yw cyfeirio yma am frwdfrydedd Bwrdd Croeso Prydain yn Buenos Aires pan glywsant fod Silvia yn dod i Lundain. Aethant ati yn ddi-oed i gael delw ohoni wedi ei wneud yng ngweithdy cŵyr Madame Tussaud. Costiodd y pen yn unig £300 ac er nad oedd y tebygrwydd yn hollol gywir, cafodd y cerflun hwn, mewn gwisg Gymreig, le mewn gwahanol ganolfannau yn ninas Buenos Aires i hudo twristiaid i Brydain.

Brynhawn dydd Sadwrn, Mawrth 6, trefnwyd i'r gwahoddedigion arbennig o Batagonia gwrdd yn Parliament Street. Oddi yno aethant gyda'r Gwir Anrhydeddus James Griffiths, Yr Ysgrifennydd dros Gymru, i ymweld â'r Tŷ Cyffredin. Yna cafodd amryw a oedd wedi byw yn Chubut, gyfle i gyfarfod a'i gilydd. Oddi yno aethant i'r Swyddfa Gymreig i gael te, bara brith a seigiau blasus eraill. Yna cawsant groeso swyddogol gan yr Ysgrifennydd dros Gymru a hefyd gan Arglwydd Morris, Borth-y-gest. Oddi yma aeth pawb i'w gwestai i baratoi ar gyfer mynd i'r cyngerdd yn yr hwyr.

RHAGLEN Y CYNGERDD YN NEUADD ALBERT, MAWRTH 6, 1965

Cynlluniwr: Y Bonwr Raymond Edwards
Cyfarwyddwr: Y Bonwyr John Williams, Mervyn Evans a Peter Morley Jones
Thema: "DESERTS INTO GARDENS"

Cymerwyd rhan gan:

Pontarddulais Choral Society, Gentlemen Songsters (Boneddigion y Gân), Penarth Operatic Society, Pat Shaw Folk Band, Caban Pren Group, Students of the Art of Movement Studio, Addlestone, Dawnswyr Aelwyd yr Urdd Aberystwyth, London Welsh Theatre Group, London Welsh Children's Dance Group, London Welsh Penillion Party (Cantorion Dylan), Trumpeters of the Life Guards, Ivor Emmanuel, Patricia Bredin, Gwyneth Jones, Esme Lewis, Cyril Anthony, Margaret Rees, Hugh David.

Yr oedd y neuadd yn orlawn ac ymhlith y gwahoddedigion yr oedd y Bonwr Horacio Marco, Llysgennad Llywodraeth Ariannin.

Cyrhaeddodd Silvia i Heathrow brynhawn y Dathlu ac yno yn ei disgwyl yr oedd cerbyd Mr. William Harries, Llywydd Cymry Llundain, i'w chludo i Neuadd Albert lle y cafodd ei chyflwyno i'r gynulleidfa luosog. Yn dawel ac urddasol cyflwynodd hithau gyfarchion Cymry'r Wladfa yn Gymraeg a chafodd gymeradwyaeth fyddarol gan y cannoedd oedd yno.
Yna cyflwynodd y Gwir Anrhydeddus James Griffiths albwm iddi gyda chyfarchion i'r Cymry yn Ariannin oddi wrth 70 o Gymdeithasau Cymraeg yn Lloegr.

Ar ôl y cyngerdd gwahoddwyd pawb oedd yn gysylltiedig â'r Wladfa i gael paned o de a sgwrs yng Nghanolfan Cymry Llundain yn "Gray's Inn Road".

## CYFRANIADAU A DIGWYDDIADAU'R DATHLU

Valmai Jones

Yn ystod blwyddyn y dathlu anfonodd Clwb Cinio Caerdydd, Abertawe, Llanelli, Bangor ac Aberafan, faneri'r ddraig goch i'r Wladfa i'w chwifio ar brif swyddfeydd Talaith Chubut.
Anfonodd Chwarel y Penrhyn lechen hardd. Cerfiwyd arni'r geiriau hyn gan y Br. R. L. Gapper:

> "Teyrnged Cymru i'r Gwladfawyr ym Mhatagonia 1865-1965. Tributo de Gales a los Colonos Galeses en la Patagonia."

Fe'i dadorchuddiwyd yn Plaza Gaiman ym mhresenoldeb y Pererinion o Gymru.

Recordiwyd cyfarchion o Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, at Goleg Camwy yn y Gaiman. 'Roedd y tâp yn cynnwys rhaglen o gyngerdd diwedd-tymor yr ysgol ac yn diweddu trwy ganu anthem genedlaethol Ariannin yn Sbaeneg. ;

Cafwyd arddangosfeydd o ddefnyddiau yn ymwneud â'r Wladfa yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth; yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor ac yn y Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng

Nghaerdydd ac Abertawe.

Cyhoeddwyd "Canu'r Wladfa", sef detholiad o waith cerddorion a phrydyddion y Wladfa. Fe'i golygwyd gan John Hughes, Mus.Bac., Dolgellau ac R. Bryn Williams, M.A., ac fe'i cyhoeddwyd dros Bwyllgor Cenedlaethol y Dathlu gan Ernest Roberts, Y.H., M.A., Bangor.
Gwahoddwyd un o'r ymwelwyr ifainc o'r Wladfa i dreulio blwyddyn yng Ngholeg Harlech. Elvey MacDonald oedd yr un a fanteisiodd ar y cyfle hwn ac arhosodd yn y Coleg am dri thymor dan nawdd Ysgoloriaeth Owen Wyn Richards. Dewisodd y Gymraeg fel pwnc i'w astudio.

Ar gais y Br. Virgilio Zampini, Gaiman – Cyfarwyddwr Diwylliant Talaith Chubut – anfonodd Mrs. Arianina Roberts a minnau ddetholiad o alawon Cymru i arweinydd Band Pres Llywodraeth Chubut gyda'r canlyniad fod "Hen Wlad fy Nhadau", "Gwyr Harlech", "Llwyn Onn" ac eraill i'w clywed pan gyrhaeddodd y pererinion yno. Deallwn iddynt glywed "Tipperary" hefyd, trefniant a oedd i'w glywed yn ystod y Rhyfel Byd cyntaf,1914-18, a chofiaf ei chlywed lawer tro, yn arbennig ar brynhawn Sul ym Mhlaza Trelew.

Gan i grefydd chwarae rhan mor bwysig ym mywyd y Gwladfawyr, teimlai Pwyllgor Cenedlaethol y Dathlu ei bod hi'n gwbl addas i geisio cysylltu Eglwysi Cymru yn uniongyrchol â'r canmlwyddiant trwy ofyn iddynt neilltuo Sul olaf mis Mai fel "Sul y Wladfa".

Trwy garedigrwydd y Br. Harold Jones, Bryn Iâl, Caergwrle, a swyddogion Cwmni Esso, anfonwyd i'r Wladfa y ffilm "The World still sings" yn portreadu Gŵyl Gydwladol Llangollen.

Dangosodd y Royal Cambrian Academy of Art, Plas Mawr, Conwy, ei ddiddordeb yn y Dathlu trwy awgrymu cynnal arddangosfa yn Ariannin o ddarluniau o Gymru gan artistiaid cyfoes. Anfonwyd dros ddeg a thrigain ohonynt dros y môr i'r Wladfa ond trwy ryw amryfusedd daethant yn ôl i Gymru heb eu gweld na'u prynu! Cludodd y Post Brenhinol y darluniau hyn i Ariannin ac yn ôl yn rhad ac am ddim.

I gofio'r Dathlu cyhoeddodd Undeb y Cymry ar Wasgar ym mis Mai 1965 rifyn arbennig o'u cylchgrawn "Yr Enfys". Ynddo ceir cyfarchion a llongyfarchiadau unigolion a chymdeithasau. Yn amlwg ymhlith y rhain ceir y cyfarchiad a ganlyn gan Senor Adolfo Vicchi, Llysgennad Gweriniaeth Ariannin:

> "Ar achlysur dathlu can mlynedd er pan aeth mintai o Gymry i sefydlu ym Mhatagonia, Argentina, cyflwynaf gyfarchion gwresocaf i'r "Enfys", ceidwad brwdfrydig traddodiadau Cymru.
>
> Dymunaf hefyd ddweud fod disgynyddion y 153 o arloeswyr dewr hynny yn ddinasyddion rhagorol Ariannin ac yn eu bywyd yn cynrychioli arferion a thraddodiadau eu cyndeidiau gyda'r rhai a berthyn i'w gwlad eu hun. Trwy hyn cyfrannant o fewn eu gallu i fodolaeth y teimlad o gyffredinolrwydd sydd mor adnabyddus a nodweddiadol o anian gwerin Ariannin – bob amser yn agored a chroesawgar i faint bynnag o ddynion o ewyllys da a ddymunant fyw yn ei thir."

Ceir yma hefyd gyfarchion y Gwir Anrhydeddus James Griffiths, A.S., Ysgrifennydd Gwladol Cymru; Mrs. Ann White, dros Gymry Durban; Richard Lloyd Roberts, Llywydd Cymdeithas Genedlaethol Cymanfa Ganu'r Taleithiau Unedig a Chanada; Mrs. Angharad LI. Roberts, dros Gymry Vancouver, British Columbia; Mr. Caradog Jones, dros Gymry Ffrainc; Mr. W. T. Roberts, dros Gymry Nelson, Seland Newydd; Mr. M. Mathlas, Sydney, Australia; Mr. Alan Leigh dros Gymry Bermuda; a'r Bonwr John R. Owen dros Gymry Detroit, U.D.A. Ar ôl bod ar y Bererindod ysgrifennodd y Br. T. Elwyn Griffiths, y golygydd, bennod faith a diddorol yn adrodd hanes y Bererindod.

Cyn dechrau'r dathlu ym Mhatagonia fe sylweddolwyd nad oedd ganddynt faner y ddraig goch ond daeth y Capten T. E. Roberts, Caergwrle, i'r adwy trwy gyflwyno baner braf yn anrheg i Gymdeithas Diwylliant Camwy yn y Gaiman, a honno a chwifiwyd yn ystod y seremoni gyntaf yn ymwneud â'r dathlu.

Gyda'r amcan o ddeffro diddordeb yn y ddawns werin Gymraeg anfonais innau recordiau a cherddoriaeth a chyfarwyddiadau ar gyfer nifer o ddawnsfeydd Cymru. Deallaf iddynt gael hwyl arbennig yn eu cyflwyno i'r Pererinion. Yr wyf yn ddiolchgar i Mrs. Frances Mon Jones am un o'r recordiau.

Ni chefais y fraint o fynd i'r Dathlu yn y Wladfa gan nad oedd gan Gymdeithas Cymry Ariannin ym Mhrydain ddigon o arian i dalu am daith ei Chadeirydd. Serch hynny, gyda chymorth ariannol fy mhriod, cefais y pleser hwnnw ar ddiwedd 1966, a threuliais bron i chwe mis efo'm teulu a chael y mwynhad o wrando ar sylwadau amrywiol, diddorol, craff pobl Chubut ar ymweliad y Pererinion y flwyddyn cynt. Sylweddolais fod gweld a chael cwmnïaeth nifer mor lluosog o Gymry adnabyddus a oedd, yn eu dull arbennig eu hunain, yn llywio a chyfoethogi bywyd Cymru, wedi eu gwefreiddio, wedi rhoi "hwb i'r galon", ac wedi adnewyddu eu balchder yng ngwlad eu cyndeidiau.

Clywais ganmol, clywais feirniadu hefyd. Cafodd y siom fwyaf i bobl y Wladfa ei fynegi yn y frawddeg hon gan foneddiges o ardal Bryn Gwyn:

> "'Doedd dim un Gweinidog o Gymru ymhlith y Pererinion."

Gresyn na lwyddodd Eglwysi Cymru i anfon cynrychiolydd i'r dathlu.

Yn ystod cyfarfod y pnawn yn Eisteddfod Chubut, Hydref 30 1966, cyrhaeddodd y newydd am drychineb Aberfan. Cododd pawb ar eu traed i ddangos eu cydymdeimlad. Cyn gadael y neuadd gwnaed casgliad tuag at Gronfa Aberfan, deuthum innau â'r arian i Gymru a'u hanfon at Faer Merthyr Tudful.

Ar derfyn fy ymweliad cefais wahoddiad gan chwiorydd Capel Tabernacl, Trelew, i'r Festri un pnawn Sadwrn i gael ymgom a "phaned o de" a chroeso bythgofiadwy. Yno wrth y llwyfan yr oedd cadair hardd, anghyffredin yr olwg, sef cadair bardd Eisteddfod y Canmlwyddiant yn disgwyl am i rywun ei chludo i Flaenannerch, cartref Dic Jones, y bardd buddugol.

Ar gais Pwyllgor Eisteddfod Chubut cytunais i gludo'r gadair i Gymru. Ysgrifennais at

awdurdodau’r Post Brenhinol yn Buenos Aires a chael caniatâd i gario "dodrefn". Gyda chymorth cyfeillion yn Chubut ac yn Buenos Aires cyrhaeddodd y gadair i’r llong "Amazon" fore’r dydd yr oeddwn yn hwylio.

Gadewais borthladd Rio de Janeiro ddydd Gŵyl Dewi 1967. Yr oedd pedwar o Gymry yn cyd-deithio â mi, sef Mrs. Ceinwen Evans de Hughes Cadfan, Buenos Aires; Mrs. Iorwerth Williams, Trelew; a Mr. a Mrs. Ynyr Jones, Luton, Lloegr. Gan fod ein Capten yn Gymro – Capten R. Jones o Sir Fôn – awgrymais iddynt ein bod yn anfon nodyn i’w annerch. Ysgrifennais y geiriau a ganlyn ar gefn y daflen-fwyd:

"Cyfarchion gwlatgar a chynnes ar Ddydd Nawddsant ein Cenedl" a chawsant eu harwyddo gennym, a’u cyrchu i fwrdd y Capten yn y Dosbarth Cyntaf gan Sbaenwr a oedd yn edrych ar ein holau yn ystod y prydau bwyd. Trannoeth, er syndod a llawenydd i ni, derbyniasom wahoddiad gan y Capten ac yno, yn ei gaban clyd ef, ein llwncdestun oedd "Dewi Sant". Cawsom hanner awr hapus a sgwrs ddifyr. Cyfeiriais at y llwyth gwerthfawr a oedd yn howld y llong, sef y gadair, ond dywedodd Capten Jones wrthyf: "Nid yn yr howld y mae hi ond yn y "First Class Luggage Room." Teimlwn yn dawel fy meddwl o wybod fod rhywun arall hefyd yn gofalu amdani.

Cyraeddasom borthladd Southampton a chyn gadael y llong gwnaed trefniadau i anfon y gadair i Flaenannerch. Mynd i’r lan wedyn ac i’r dollfa, troi i edrych am fy magiau a chael fod y gadair y tu ôl i mi a swyddog y dollfa yn gofyn: "Did you win that?" Cymro ydoedd. Eglurais o ble y daeth ac i ble yr oedd yn mynd a chyda gwên ddeallus rhoddodd stamp arni ac yr oeddwn yn rhydd i fynd.

Cafodd y Dathlu sylw eithriadol gan y Wasg yng Nghymru a Lloegr a thros y môr, ar y radio a’r teledu. Cyfeiriaf yma at rai y gwn i iddynt roi lle a llun i gofio’r achlysur pwysig hwn: "Yr Enfys", "Y Cymro", "Y Faner", "Y Tyst", "Barn", "Yr Aelwyd", "London Welshman", "Journal of the Merioneth Historical and Record Society", "Sunday Express", "Weekend Telegraph", "The Times", "The Observer", "Liverpool Daily Post", "Western Mail", "Wrexham Leader", "Y Drych", Newyddiaduron Ariannin: "Y Drafod", "Jornada", "Esquel", "La Prensa", "La Nacion", "Buenos Aires Herald". Cylchgronau: "Atlantida" – rhifyn arbennig gyda lluniau lliw, a "Panorama Britanico".

Yn ystod y flwyddyn darlledodd y B.B.C. hefyd nifer o raglenni radio, y mwyafrif ohonynt yn cynnwys sylwadau gan R. Bryn Williams a chaneuon gwerin Ariannin.

Ar y teledu cafwyd ffilmiau o’r Wladfa a gynhyrchwyd gan W. R. Owen yn ystod ei ymweliad – yn 1954, a ffilm arall a wnaed yn 1961 gan Nan Davies a John Ormond. Gwelwyd hefyd y ffilm "Cariad Creulon" o waith R. Bryn Williams. Cafwyd rhaglenni gan y Cwmni Teledu T.W.W. gan roi sylw arbennig i’r ymwelwyr ifainc o’r Wladfa. Rhoddais fenthyg nifer o ddarluniau o’r Wladfa iddynt, rhai hen a newydd i wneud rhaglen "Patagonia 1965".

Pan oeddent yn Buenos Aires ar eu ffordd i’r Wladfa cyflwynodd y Dr. J. Alban Davies, Arweinydd y Bererindod, gofrodd o Gymru i’r Doctor Arturo Illia, Arlywydd y Weriniaeth, sef llyfryn wedi ei rwymo mewn croen gafr o liw coch a llythrennau aur arno. Argraffwyd a rhwymwyd ef gan grefftwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sef Idris Jones a John E. Bowen.

Lluniwyd y cyfarchiad arno yn Gymraeg a Sbaeneg. Cyflwynwyd cofrodd debyg i Raglaw Talaith Chubut.

Yn ystod 1965 penderfynodd panel o feirniaid a ddewiswyd gan Fwrdd Croeso Cymru ddyfarnu Tlws Uchelwyl Cymru 1965 i Bwyllgor Dathlu Canmlwyddiant y Wladfa am iddynt gyfrannu yn helaeth i hyrwyddo Cymru yn ystod y flwyddyn.

Hyfryd iawn ydoedd derbyn llythyrau o Ariannin a'r amlen yn dwyn stamp-post arbennig i gofio'r glanio yn 1865. Stamp coch ydoedd a Thalaith Chubut yn y cefndir mewn lliw pinc a darlun o'r Mimosa mewn du drosto. Ar y gornel chwith ceid y geiriau "Centenario de la Colonizacion Galesa del Chubut", ar y dde "8 pesos" ac ar y gwaelod ceid "Republica Argentina" mewn llythrennau gwynion. Dosbarthwyd dwy filiwn o'r stampiau hyn gan Swyddfa Hysbysrwydd Llywodraeth Ariannin fel rhan o'i theyrnged swyddogol i'r Cymry cyntaf a laniodd ar draethau'r Golfo Nuevo.

Anfonodd Cymdeithas Cymry Ariannin ym Mhrydain nifer o recordiau i'r Wladfa ar gyfer y dathlu, yn unawdau, deuawdau, partïon a chorau o Gymru.

Llawenydd a braint i mi yn ystod y flwyddyn oedd cael cyfarch Cymry De America, a thrigolion y gwledydd yno, yn Sbaeneg, ar y rhaglen "Latin America", flwyddyn y dathlu.

## COLLED Y WLADFA YN 1965

Yn ystod y flwyddyn collodd y Gymdeithas Gymraeg yn y Dyffryn bedwar o'i chymeriadau mwyaf adnabyddus a gwerthfawr. Yn gynnar ar y flwyddyn – a hithau'n aelod diwyd, brwdfrydig o Bwyllgor y Dathlu yn Chubut – bu farw Mrs Rhiannon Iwan de O'Connor. Yna bu farw'r Bonwr Arthur Hughes, B.A., dros ei 90 mlwydd oed. Ymgysegrodd ei fywyd bron i gyd i'w lyfrau, i ddysgu ieithoedd a braille yn y blynyddoedd diwethaf, a dilyn y sêr yn y ffurfafen gyda'r pellwelyr. Ysgrifennodd yn gyson i'r "Drafod" ar destunau amrywiol iawn a bu'n feirniad yn Eisteddfodau'r Wladfa am flynyddoedd.

Bu farw hefyd Y Bonwr E. T. Edmunds, B.Sc. – gŵr bonheddig a gyfrannodd yn ddoeth ac yn haelionus i addysg a diwylliant yn y Dyffryn a bu yn Is-Gonswl Prydain yn Chubut am gyfnod maith.

Ar Fawrth 21, ychydig ddyddiau cyn cyrraedd ei chant oed, bu farw Mrs. Myfanwy Ruffudd Jones de Lewis. Hunodd ym Mhlas-y-graig, Gaiman, cartref ei merch Mair ap Iwan Roberts a oedd yn ferch i Lewis Jones, Caernarfon, un o sefydlwyr y Wladfa. Gorffwys ei gweddillion yn yr un bedd â'i chwaer, Eluned Morgan, yn y fynwent ar y bryn uwchben tre'r Gaiman.

## CRONFA CANMLWYDDIANT Y WLADFA

Pan ddychwelodd y Pererinion i Gymru penderfynasant ffurfio cronfa i hybu a chadw'r cysylltiad rhwng Cymru a'r Wladfa. Cyfrannwyd y swm o £1,508 ac ychwanegodd Pwyllgor y Dathlu yng Nghymru y swm o £531 a oedd yn weddill ganddynt. Yng Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymry Ariannin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, Aberteifi, 1966, penderfynwyd trosglwyddo'r gronfa i ofal tri ymddiriedolwr, sef Dr. Jenkin Alban Davies, Y Bonwr Alun Oldfield Davies a'r Bonwr Alwyn Hughes-Jones.

Cofrestrwyd y gronfa hon gan Gomisiynwyr yr Elusennau ac yn ôl y weithred a gofrestrwyd gan y Comisiynwyr, yr amcanion oedd:

> "Any residue of the said fund. . . shall be applied by the Trustees for or towards the costs of publishing and printing books, pamphlets and papers of an educational nature connected with the Welsh Settlement in Patagonia, and for the furtherance of similar educational purposes and objects connected with the Centenary Celebrations of the Welsh Settlement in Patagonia, PROVIDED ALWAYS that such purposes and objects shall in the opinion of the Trustees be for the advancement of education."
>
> "Bydd yr Ymddiriedolwyr yn dilyn i bob pwrpas ymarferol argymhellion Cymdeithas Cymry Ariannin ac, wrth gwrs, bydd yn rhaid i'r argymhellion hyn fod yn unol i'r amcanion a nodir uchod."

Yn y cyfarfod hwnnw mynegwyd y priodoldeb o geisio chwyddo'r "Gronfa" er mwyn cael rhagor o log ar y cyfalaf a gwario'r llog yn unig.

Yn y Cyfarfod Blynyddol yn y Bala yn 1967 cyflwynodd Hywel Hughes (Bogota) siec yn enw ei fab Rowland am y swm o $1,000 i'r Gronfa hon ond, ac eithrio'r cyfraniad hael hwn, siomedig fu'r ymateb i gais yr ymddiriedolwyr am gyfraniadau ychwanegol yng Nghymru i chwyddo'r gronfa.

O 1965 hyd 1978 defnyddiwyd y llogau i anfon llyfrau a newyddiaduron i'r Wladfa (o'r flwyddyn honno ymlaen trosglwyddwyd y dasg i'r Pwyllgor Gwaith) a chyfrannu yn flynyddol symiau neilltuol tuag at noddi myfyrwyr o'r Wladfa a ddaw i Goleg Harlech a sefydliadau eraill, a hefyd tuag at Gymdeithas Cymry Ariannin, a gall unrhyw sefydliad wneud cais iddynt am arian tra bo hwnnw'n ymwneud â'r Wladfa mewn unrhyw fodd.

Awgrymwyd o dro i dro – e.e. gan W. R. Owen yn 1970 – y dylid gwario rhagor o'r cyfalaf yn hytrach na'r llogau yn unig ac aeth Tom Jones, Llanuwchllyn cyn belled ag awgrymu yn y cyfarfod hwnnw y dylid dirwyn y gronfa i ben ymhen rhyw ugain mlynedd. Yn yr un flwyddyn gwrthododd yr Ymddiriedolwyr gais Llyfrgell y Gaiman am eiriadur Cymraeg/Saesneg oherwydd prinder arian a'r canlyniad fu i Gymdeithas Cymry Ariannin anfon dau Eiriadur Mawr, y naill i Bwyllgor Eisteddfod Chubut a'r llall i Lyfrgell Eluned Morgan yn y Gaiman. Yn 1973 gostyngodd yr ymddiriedolwyr eu cymhorthdal i fyfyrwyr Coleg Harlech o £125 y flwyddyn i £100 gan fod costau anfon newyddiaduron a chylchgronau wedi codi, ond ni anfonir yr un newyddiadur na chylchgrawn ganddynt erbyn hyn.

Erbyn 1983 'roedd dau o'r ymddiriedolwyr cyntaf wedi marw a phenderfynodd y Dr. Alun Oldfield Davies benodi'r Dr. Glyn O. Phillips a'r Bonwr Aled Eames i'w holynu, a'r ddau olaf hyn, bellach, a erys.

## YSGOLORIAETH COLEG HARLECH

Eiddwen Humphreys

Yn ystod ein cyfarfod ar faes yr Eisteddfod yn 1957 awgrymodd y Fns. Valmai Jones y priodoldeb o drefnu ysgoloriaeth i fechgyn a merched o'r Wladfa fel y gallent ddod i astudio yn y wlad hon ac yna ddychwelyd i gyfoethogi bywyd cymdeithasol y Wladfa. Fe wireddwyd y freuddwyd gyda chydweithrediad Coleg Harlech a'r Fns. Alwena Wyn Richards, U.D.A., trwy ysgoloriaeth ei gŵr, y diweddar Owen Wyn Richards. Mawr yw ein dyled iddi am ganiatáu i i fyfyrwyr o'r Wladfa dderbyn yr ysgoloriaeth hon yn flynyddol.

Tystia pob un ohonynt iddynt gael cymorth parod gan swyddogion Coleg Harlech tra buont yno ac mae ein dyled yn fawr iddynt. Yn 1978, yn sgil cyfarfod rhwng Tom Jones, Llanuwchllyn, a Warden y Coleg sicrhawyd ef y buasai'r myfyriwr yn derbyn 16 awr o hyfforddiant yr wythnos a gwersi tiwtorial yn ychwanegol at hynny. Golyga'r ysgoloriaeth hon fwyd, llety a threuliau addysgol ynghyd a £350 y flwyddyn o arian poced. Erbyn hyn cyfraniad y Gymdeithas i'r myfyriwr yw £225 y flwyddyn yn ychwanegol at gyfraniad yr ymddiriedolwyr. Bu aelodau'r Gymdeithas a chyfeillion yn gefn iddynt yn ystod eu harhosiad yma, gan ofalu fod ganddynt rywle i aros yn ystod gwyliau'r Coleg.

Dyma enwau'r myfyrwyr o'r Wladfa a fu'n astudio yng Ngholeg Harlech: *

Elvey MacDonald, Gaiman 1965/6
Elvira Austin, Trefelin 1966/8 (Aeth oddi yno i Goleg y Brifysgol, Caerdydd)
Laura Irma Jones, Gaiman 1969/70
Manon Arlin Lewis, Trefelin 1970/71
Dewi Bernabe Hughes, Trelew 1971/72
Rene Griffiths, Trelew 1972/3
Primrose Jones, Esquel 1973/4
Mary Green, Trevelin 1974/5 (Graddiodd wedyn mewn Cymraeg a Sbaeneg yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe.)
Maria Esther Evans, Trevelin 1975/6
Ivonne Owen, Trelew 1976/7 (Graddiodd wedyn yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.)

Yn 1977/8 ataliwyd yr ysgoloriaeth am flwyddyn gan y teimlid nad oedd yn ddigonol i gadw myfyriwr ac yntau wedi talu am ei gostau teithio o'r Wladfa. Yn 1978 'roedd y Gymdeithas wedi ei chofrestru i amcanion elusennol ac wedi gwneud cais am gymorth y Cyngor Prydeinig. Yn sgìl hyn talodd y Cyngor gostau teithio'r myfyriwr o'r Wladfa a £200 i'w dalu fesul traean yn ystod gwyliau'r Coleg ond yn 1982 daeth y nawdd hwn i ben o ganlyniad i ryfel y Malvinas.

Dyma'r myfyrwyr a fanteisiodd ar y drefn newydd:

Eleri Jones, Dolavon 1978/9
Ann Lorein Ellis, Gaiman 1979/80
Sandra Day, Gaiman 1980/81
Gloria Thomas, Gaiman 1981/2

Gorfu i'r myfyrwyr o hynny ymlaen dalu eu costau eu hunain, a rhwng 1983 a 1985 ni chafwyd myfyriwr o gwbl:

Norma Hughes, Buenos Aires 1982/3
Gladys Thomas, Gaiman 1986/8
Fernando Williams a Nadine Laporte 1989/90 (yn ystod y flwyddyn hon hefyd rhoddodd y Gymdeithas gyfraniad i Herly Pulgar Hughes o Chile (ei fam, Carys Hughes Pulgar, yn dod o’r Gaiman) yn yr un Coleg.

Gwahoddir myfyriwr Coleg Harlech i holl bwyllgorau’r Gymdeithas ac yn y Cyfarfod Blynyddol cânt gyfle i annerch os dymunant, ond dyma a gofnodwyd yng Nghyfarfod Blynyddol 1972:

> "Gwahoddwyd Rene i siarad, ond gwell oedd ganddo roi cân. Yr oedd wedi dod a’i gitâr ac wedi gwisgo poncho coch, swynodd bawb a’i lais melodaidd a’i bersonoliaeth gynnes."

Yng nghofnodion Ebrill 1977 nodir y

> "derbyniwyd yn llawen y newydd fod gan Maria Esther Evans bedwar dosbarth nos yn Esquel a Threvelin"

ac ar ei hymweliad â Chymru yn 1983 tystiodd Irma Hughes de Jones, Golygydd "Y Drafod",

> "fod ailagor Ysgol Feithrin y Gaiman gan dair o gyn-fyfyrwyr Coleg Harlech (Ann Lorein Ellis, Sandra Day a Gloria Thomas) yn arwydd o lwyddiant yr ysgoloriaeth".

Ymwelodd pobl ifainc eraill o’r Wladfa â Chymru ar wahân i fyfyrwyr Coleg Harlech. Yn 1977, er enghraifft, daeth Alwen ac Erik Green yma am gyfnod – Alwen yng nghartref Prys Edwards gan dreulio peth o’i hamser yng Ngholeg Addysg Bellach Aberystwyth ac yn Swyddfa Urdd Gobaith Cymru, ac Erik yn Foelcathau, Llangernyw, gan fynychu Coleg Llysfasi am ddiwrnod yr wythnos.

Nid yw lle yn caniatáu i mi enwi pawb ond enghreifftiau eraill yw Guillermo Quevedo Davies o Drelew yn dod yn fyfyriwr i Goleg Pensaernïaeth Cymru yn 1977. Yn 1979 treuliodd Ifan Jones, 15 oed, o Ddolafon, ddeufis yng Nghymru ac yn 1981 daeth Homer Roy Hughes yma ar wahoddiad Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifainc Sir Gaerfyrddin.

## GWEINIDOG

Fel y nodwyd eisoes, ’roedd yn siom fawr i bobl y Wladfa nad oedd gweinidog yr efengyl ymysg y Pererinion a aeth yno yn 1965 a phan wahoddwyd Nan Davies i annerch y Cyfarfod Blynyddol yn 1968 ar ôl bod yn ffilmio yn y Wladfa pwysleisiodd hithau yr angen hwn. Yn yr un cyfarfod adroddodd y Trysorydd, Mr. W. O. Jones,

> ". . . fod £29 6 swllt yng nghyfrif y Gymdeithas yn yr Ariandy. . . "

Fodd bynnag, ym mhwyllgor mis Mawrth 1968, ’roedd cynrychiolaeth o Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi trafod y cais am weinidog i’r Wladfa a darllenwyd llythyr

swyddogol Ifano Evans (Cadeirydd), a Catherine Ellis (Ysgrifennydd) – dros Undeb Eglwysi Rhyddion y Wladfa. Penderfynwyd rhoi'r cais gerbron Cymanfa Gyffredinol Bwrdd y Genhadaeth y mis Mehefin canlynol.

Yng nghyfarfod y Gymdeithas ym mis Tachwedd yr un flwyddyn darllenwyd llythyr gan Eglwysi Rhyddion y Wladfa yn tynnu sylw eu bod wedi sicrhau $600,000 (pesos) y flwyddyn tuag at gadw gweinidog yno yn ogystal â thŷ a chytundeb am bum mlynedd pe bai yn dymuno hynny.

Methiant fu'r cais, er hynny:

> "oherwydd prinder cefnogaeth ariannol, hefyd prinder gweinidogion yng Nghymru ei hun."

Yng Nghyfarfod Blynyddol 1969 aeth y drafodaeth rhagddi a Tom Jones, Llanuwchllyn, yn nodi fod diffyg gwybodaeth yng Nghymru ar y mater: y dylai rhagor o hysbysebu gael ei wneud, ac na wyddai ef fod cyflog wedi ei gynnig gan bobl y Wladfa. Yn yr un cyfarfod ymbiliodd Major Edward Watkins, (Byddin yr Iachawdwriaeth),Trelew, am weinidog yn fwy na dim i ddeffro diddordeb yn y plant ifainc tuag at iaith a thraddodiadau Cymru. Yn ei farn ef yr oedd y cyflog a gynigid gan Eglwysi Rhyddion y Wladfa yn ddigon i fyw arno yn y Wladfa.

Y cam cadarnhaol a wnaed yn sgìl hyn oedd i Robert Owen Jones, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor – ac yntau wedi ei ryddhau o'i swydd am flwyddyn i ymchwilio i hanes yr iaith Gymraeg yn y Wladfa – ymgymryd â phregethu ar y Suliau yn ystod yr amser a dreuliodd yno. Yng nghofnodion Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn 1973 dywedodd Tegai Roberts (a oedd yn gwneud gwaith ymchwil yng Nghymru ar y pryd):

> "fod Capel Bethel, Gaiman, a'r Tabernacl, Trelew, wedi rhoi swm o arian i wneud gwelliantau ar dŷ a brynwyd gan Ysgol Camwy iddo ef a'r teulu fyw ynddo tra byddent yno."

Yr oedd Major Edward Watkins a Mair Davies yng ngofal eglwysi yno eisoes, wrth gwrs, ond disgwylid iddynt bregethu yn Sbaeneg gan fod eu gofal dros y gymuned gyfan yn hytrach na disgynyddion y Cymry.

Yn 1979 cyfrannodd y Gymdeithas £100 tuag at dreuliau'r Parchedig Gareth Maelor Jones ar ei ymweliad a'r Wladfa. Nodir yng nghofnodion Awst 1979:

> "Teimlai fod y ffaith fod drysau Seion, Esquel, wedi ailagor, ynddo'i hun wedi cyfiawnhau cost y daith."

Bedyddiodd nifer o blant a theimlodd:

> "wres arbennig y croeso a oedd yno i bregeth a chymun".

Yn 1982 treuliodd Y Parchedig Goronwy Prys Owen, y wraig a'u dau blentyn flwyddyn yn y Wladfa.

Ym Mai 1985 cafodd y Gymdeithas y pleser o groesawu i'w cyfarfod Y Parchedig Eirian Lewis, Gweinidog gyda'r Bedyddwyr ym Maenclochog.

> "Treuliasai fis yn y Gaiman gan bregethu yng Nghapel Bethel yno ar fore Sul a gwasanaethu yn y capeli cylchynol yn eu tro. Treuliasai fis arall yn Nhrelew gan ddilyn yr un patrwm a phregethu yn yr eglwysi bychain fin nos. Bu hefyd yn Esquel. Bu'n arwain Astudiaethau Beiblaidd, yn gwneud peth gwaith bugeiliol..."

yn ogystal â chymdeithasol. Yn yr un cyfarfod cafwyd sylwadau Tom Jones Llanuwchllyn ar ei ymweliad yntau â'r Wladfa a dywedodd:

> "fod gwir angen cyfarfodydd Astudiaethau Beiblaidd a rhyfeddai fod 24 o ferched, dan arweiniad Mair Davies, yn mynychu'r Ysgol Sul yn Nhrelew, pob un ohonynt yn siarad Cymraeg ac yn medru cymryd rhan yn yr Ysgol."

Penderfynwyd yn y cyfarfod nesaf symud ymlaen â'r syniad o anfon gweinidog i'r Wladfa. Mewn cydweithrediad ag Undeb Eglwysi'r Wladfa gwireddwyd y freuddwyd yn 1987 ac yn sgil hysbyseb yn y Wasg gan y Gymdeithas dewiswyd Dr. Phil Elis i ymgymryd â'r gwaith – athro ysgol ac un o arweinwyr Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Yr oedd ef wedi dilyn cwrs mewn Diwinyddiaeth a siaradai Sbaeneg.

Fe'i rhyddhawyd o'i swydd am flwyddyn ac aeth â'i wraig a'i dri phlentyn gydag ef. Cyfrannodd rhai unigolion at y costau o hybu'r fenter a phenderfynodd y Gymdeithas gyfrannu £2000 o'r £2500 oedd ganddynt yn yr ariandy i dalu'r costau teithio (cawsai hefyd rodd o £200 gan yr Eglwys Bresbyteraidd) ac ymgymerodd Undeb Eglwysi'r Wladfa â chadw'r teulu. Yn ystod y misoedd cyntaf sicrhawyd tŷ iddynt yn Nhrelew gan Mr. a Mrs. Homer Hughes ac yna Tŷ Camwy yn y Gaiman, a cherbyd at eu gwasanaeth.

Cyraeddasant y Wladfa ym mis Awst 1987 a daeth tystiolaeth eu bod wedi cael croeso twymgalon yno. Dychwelasant i Gymru ym mis Gorffennaf 1988 a chawsom adroddiad gan Dr. Phil Elis yn ein cyfarfod blynyddol yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Wrth wneud y cyfraniad hwn penderfynodd y Gymdeithas na allai fforddio i barhau â'r arferiad o anfon newyddiaduron a chylchgronau i'r Wladfa.

## CROESAWU YMWELWYR O'R WLADFA

Eiddwen Humphreys

Un o'r tasgau mwyaf pleserus a ddaw i ran aelodau'r Gymdeithas yw croesawu ymwelwyr o'r Wladfa ac eithriad mawr yw peidio â chael y fraint honno yn y Cyfarfod Blynyddol a geir ym Mhabell y Cymdeithasau ar fore Gwener yr Eisteddfod Genedlaethol neu yng Ngŵyl y Glaniad a gynhelir mor agos â phosib' at Orffennaf 28.

Yn ystod y blynyddoedd cyntaf byddem yn cyfarfod i ddathlu Gŵyl y Glaniad yn festri Capel yr Annibynwyr yn Y Bala. Deuai pawb â basgedaid o fwyd i'w ganlyn gan gyrraedd araser

cinio; gofalai'r Ysgrifennydd am ddigon o ddŵr poeth, llaeth, siwgr, ac yn y blaen a chaniateid i ni ddefnyddio llestri'r Capel. Treulid y prynhawn yn ymgomio a chyfnewid newyddion o'r Wladfa ac yn recordio cyfarchion i'w hanfon yno. Yna caem Noson Lawen o frethyn cartref ar y diwedd.

Gwefr oedd croesawu 80 o gyfeillion o'r Wladfa yn 1975 a gyrhaeddodd erbyn Eisteddfod Gydwladol Llangollen gan ddychwelyd ym mis Awst ar 31 bod yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Dwyfor. Trefnwyd y daith gan Ivonne Owen gyda chymorth Anita Lewis ac ymhlith y fintai yr oedd Sra. Lidia Esther Romero yn cynrychioli'r llywodraeth.

Yn 1979 cawsom groesawu Côr Esquel dan arweiniad Jose Webber gan drefnu cyngherddau ar eu cyfer.

Cawsom noson arbennig yn 1984 hefyd pryd y cafwyd cyngerdd gan Gôr Godre'r Aran a Merched Uwchllyn. Paratowyd gwledd ar ein cyfer gan Ferched Uwchllyn a changen leol Merched y Wawr a diolchwyd yn arbennig i Mrs. Elizabeth Jones a Tom Jones am eu trefniadau trylwyr. Dro arall trefnwyd gwledd gan Dei a Mair Edwards eto yn Llanuwchllyn.
Noson i'w chofio oedd Gŵyl y Glaniad 1987 pan gawsom y pleser o groesawu mintai fechan o'r Wladfa yng ngofal Mr. a Mrs. Homer Hughes, Trelew. Yn eu plith yr oedd rhai aelodau o Gôr Edith MacDonald a enillodd y drydedd wobr yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen ychydig wythnosau ynghynt. Cawsom wefr wrth wrando arnynt yn canu ac yn adrodd yng nghwmni Triawd Menlli ac Aled Lloyd Davies yn arwain.

Yn 1988 gwahoddwyd Virgilio Zampini i annerch y cyfarfod gan ei fod ef a'i briod ar ymweliad â Chymru a chawsom anerchiad caboledig. Yn bresennol hefyd o'r Wladfa yr oedd Marta a Gwyn Rees, Plas-y-coed, Gaiman.

## MINTAI O'R WLADFA YN YMWELD Â'R HEN WLAD

Ivonne Owen

Fe fu 1974 a 1975 yn flynyddoedd cyffrous iawn i Gymry Cymraeg Ariannin. Dyma'r adeg yr oeddwn yn paratoi mintai i ymweld â Chymru yn ystod haf 1975. Yr oedd y dyhead o ymweld â'r Hen Wlad wedi bod yn destun trafod ar bron pob aelwyd Gymreig, yn arbennig gyda mwy a mwy o Gymry yn ymweld â'r dalaith yn flynyddol wedi'r dathliadau mawr yn 1965, ond yr oedd y rhan fwyaf yn swil o fentro gan ofni fod eu Cymraeg yn fratiog, eu diffyg Saesneg yn anfantais a'r newid byd yn ormod o newid. Felly, pan ddaeth y cyfle i fynd mewn grŵp, nid oedd fawr o waith cenhadu. Yn wir, ar un adeg yr oedd dros gant o enwau ar y rhestr.

Wedi'r cam cyntaf o geisio darganfod pris y tocynnau a dyfalu pob agwedd ar y gost, fe gafwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod cyfnod yr ymweliad a'r rhaglen berthnasol. Am mai gwlad y "manana" ydym ni penderfynwyd ar unwaith nad oedd pwrpas i fynd i Gymru am lai na mis o amser! Sut y buasai pawb yn trefnu i gael eu rhyddhau o'r gwaith, meddech chi? Wel, yr oedd y rhan fwyaf yn hunangyflogedig neu wedi ymddeol ac yr oedd rhai ohonom yn barod i fargeinio gyda'n cyflogwyr i gael ein rhyddhau yn ddi-dâl. Penderfynwyd hefyd manteisio ar y ffaith fod dwy wythnos o wyliau gan athrawon ym mis Gorffennaf. Fe fu'r cyfarfod cyntaf hwn yn un llewyrchus iawn a phawb yn teimlo'n eithaf hyderus wrth fynd

adref yn cynllunio’r ffyrdd gorau i gynilo arian i ymuno a’r fintai fentrus hon. Yn anffodus, o ddrwg i waeth yr aeth sefyllfa economaidd y wlad nes peri i lawer un orfod tynnu yn ôl. Erbyn hyn, yr oeddwn wedi cysylltu â chyfeillion yng Nghymru i drefnu ar ein cyfer ac edifarhau ganwaith am wneud hynny, cymaint ac mor aml oedd y newid o safbwynt y codiadau ym mhris y tocyn a’r newid i gymharu â’r bunt yn waeth bob dydd. Dim ond y freuddwyd o ymweld â gwlad ein tadau a gadwodd y fflam ynghyn a chaniatáu i 62 o bobl gychwyn ar y daith ar y trydydd o Orffennaf 1975. Y bore hwnnw, ym maes awyrennau Trelew, yr oedd yr awyr yn llawn o ofn, hiraeth, gobaith, llawenydd a ffydd, tra oedd pawb yn ffarwelio â’u teuluoedd wrth floeddio canu "Rhosyn Saron yw ei enw": wn i ddim eto ai o ganlyniad i’r grefydd a fu neu fel arweiniad i’r adfywiad i ddod.

Fe fu’r cyfathrebu â’r cyfeillion yng Nghymru a oedd yn gweithio mor galed i ddarparu ar ein cyfer yn anodd iawn. Sut yr ydych yn rhoi ar ddeall i Gymro fod eich tocyn wedi dyblu ei bris mewn wythnos a bod eich pum can punt o arian poced yn werth prin ddau gant, a’r newid wedi digwydd dros nos? Cyn y diwedd ni feiddiwn awgrymu nifer yr ymwelwyr a llai byth eu hadnoddau ariannol.

‘Roedd cychwyn o Drelew yn bell lawn o fod yn ddechrau’r daith. Wedi cyrraedd maes cydwladol Buenos Aires ac awr cyn amser cychwyn, cafwyd ar ddeall nad oedd unrhyw awyren yn gadael y maes y diwrnod hwnnw oherwydd streic am amser amhenodol! Fe fuasech yn meddwl y buasai pawb wedi torri ei galon, ond nid ni. Cafwyd llety yn y gwesty moethus, trafod y camau nesaf a chanu drwy’r prynhawn. Ond ’doedd y streic yma yn ddim ond un a arweiniodd at gyfnod dychrynllyd o lywodraeth filwrol a barhaodd am ddeng mlynedd yn Ariannin. Beth bynnag, fesul grŵp, fe gyrhaeddon ni Gymru yn y diwedd a’r grŵp olaf yn cyrraedd Eisteddfod Llangollen ar ddydd Mercher, 9 Gorffennaf 1975, bum niwrnod ar ôl i ni gychwyn o Drelew.

Ni fydd byth eiriau digonol i ddisgrifio’r croeso a’r ddarpariaeth ar ein cyfer yn y gogledd a’r de. Bythgofiadwy fu’r ymweliad a’r troeon trwstan yn dal i gael eu hadrodd dro ar ôl tro. ’Does ryfedd bod digon o’r rheini wedi digwydd mewn grŵp a oedd yn amrywio rhwng 6 a 82 oed! Cofio aelod di-Gymraeg a di-Saesneg wedi pigo lan y gair "Welcome" yn Llangollen a darganfod mai dyna oedd ei enw yn Sbaeneg, sef "Bienvenido"! Dychmygwch rywun yn ei gyflwyno ei hun i chi fel "Welcome"! Dro arall, wrth ymweld â Bridfa Blanhigion Prifysgol Cymru, un dyn yn gofyn:

"Beth yr ydych yn ddefnyddio i ladd "yuyos" yma?" Wedi ceisio ddwy neu dair gwaith am ateb sylweddolodd rhywun arall mai gair Sbaeneg am chwyn ydi "yuyos", wedi’i dreiglo’n naturiol i’r Gymraeg ond heb fod o anghenraid yn rhan o dafodiaith Ceredigion! Rhywun arall yn gwneud camgymeriad dwbl wrth ofyn pam nad oedd y Cymry yn defnyddio "achos" i goginio, sef: achos – garlleg, ond yn cael ei sillafu’n "ajos" yn Sbaeneg.

Fe fedrwn ysgrifennu cyfrol gyfan am hanesion difyr y daith. Maent yn destun hwyl a llawer o chwerthin bob tro yr ydym yn cyfarfod a hyfryd yw meddwl ein bod yn medru chwerthin yn iach yng nghanol y wasgfa ariannol a’r straen cymdeithasol sydd yn rhan o fywyd bob dydd trigolion Ariannin erbyn hyn. Gobeithio bod pob un sydd yn ymweld â’r wlad honno yn cael cymaint o fwynhad ag a gawsom ni yng Nghymru yn ystod Haf 1975.

## YMWELIADAU A’R WLADFA

Eiddwen Humphreys

Ar hyd y blynyddoedd bu aelodau'r Gymdeithas yn ymweld â'u teuluoedd yn y Wladfa ac edrychid ymlaen yn fawr at eu hadroddiadau yn ein cyfarfodydd.

O'r saithdegau ymlaen trefnwyd nifer cyson o deithiau o Gymru ar gyfer grwpiau bychain, ac yn eu mysg rai nad oedd ganddynt gysylltiadau teuluol a'r Wladfa ond a gyfareddwyd i'r fath raddau nes teithio yno drachefn a thrachefn. Yn eu plith y mae Shân Emlyn, ein Hysgrifennydd gweithgar (a ymgymerodd â'r swydd yn 1980) a Tom Gravell, ein Trysorydd ymroddgar (a ymgymerodd â'i swydd yntau yn 1974).

Yn ystod y Pasg 1974 trefnodd T. Gwynn Jones, Llanfairfechan, daith i'r Wladfa ar gyfer 19 o bobl (y gyntaf o nifer o ymweliadau a ddaeth yn achlysur blynyddol bron) ac yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn trefnwyd taith arall, y tro hwn gan Tom Gravell, Y Parchedig Lliedi Williams a Marian Rees. Bûm innau yno am chwe mis y flwyddyn honno. Trefnodd B.B.C. Cymru nifer o ymweliadau o dro i do, a chynhyrchwyd rhaglenni rhagorol ganddynt ar Y Wladfa a'i phobl.

Gallwn gofnodi fod Corau o Gymru wedi ymweld â'r Wladfa, fel a ganlyn: Côr Godre'r Aran (1977), Parti Menlli (1978), Côr Gyfynys (1980). Dyma ddyfyniad o gofnodion y Gymdeithas dyddiedig Rhagfyr 10 1977 sydd yn adrodd profiad ei Chadeirydd, Tom Jones, Llanuwchllyn:

> "Manylodd yn ei adroddiad ar y profiadau tragwyddol a ddaeth i'w ran ef a'r Côr yn ystod y daith, gan gychwyn efo'r cyngerdd cyntaf erioed i'r Côr ei gynnal ar fore Sul. Yn Buenos Aires, yn ystod eu bore cyntaf, y bu hynny. Yr oedd Dydd Llun a dydd Mawrth yn ddyddiau rhydd ond nos Fawrth cawsant brofiad yn yr Ysbyty Prydeinig yno a barodd iddynt deimlo eu bod wedi eu dyrchafu ychydig yn uwch na dynion a theimlent fod y gweinyddesau Cymraeg yno fel pe baent yn ddwy lath o daldra ar ôl y canu. Ni wnaethai Commodoro argraff arbennig arbennig arno yn ystod ei ymweliad blaenorol ond fe wnaeth y tro hwn. Yno yr oedd Dr. José Jones, prif swyddog y dalaith, wedi troi pob olwyn ac ni chostiodd yr ymweliad yno yr un ddimai i'r Côr. Nid oes dim hedfan uniongyrchol o Commodoro i Esquel ond trwy ddylanwad arbennig darfu i Aerolineas newid y drefn am y tro. Arhoswyd yn Esquel am bum noson. Yr oedd y cyngerdd yno ar y nos Wener yn brofiad diddorol lawn. Dechreuodd y Côr ganu am 11.30 o'r gloch y nos. Dilynwyd y canu a chinio a rhyfedd oedd bwyta pwdin am 3 o'r gloch y bore.
>
> Oddi yno aethpwyd i Drefelin i asado bythgofiadwy a dwysai'r wefr wrth glywed y Gymraeg ar y stryd yn union fel yr oedd yn Llanuwchllyn. Cafwyd cyngerdd da ac 'roedd Camwy Jones yn gyfieithydd ardderchog. Un o'r nosweithiau mawr oedd hon.
>
> Dydd Llun aethpwyd i lawr i'r Dyffryn ac yna i Rawson i gadw cyngerdd. Derbyniwyd hwy yn swyddogol gan lywodraethwr y dalaith a hanai o Wlad y Basgiaid ac yr oedd ganddo ddiddordeb arbennig yng nghenhedloedd y lleiafrifoedd. 'Roedd y neuadd yn newydd sbon. Nid oedd yn llawn fel y

gweddill – rhyw 350 o bobl – ond bodlonwyd y llywodraethwr gymaint fel y daeth a'i wraig i gyngerdd Trelew fore trannoeth.

Mi ganwyd yn Nhrelew, Gaiman, Porth Madryn a Dolafon (lle nad oedd digon o le ar ôl i lygoden) ac 'roedd pob un o'r rhain fel ei gilydd yn cystadlu yn ei groeso, ei gynhesrwydd a'i anwyldeb.

Oddi yno dyna hedfan i Rio i gadw cyngerdd arall ac i ffarwelio â'r Côr ar eu taith yn ôl i Gymru. Yna ymunodd y Cadeirydd a'i wraig, Y Bnr. a'r Fns. Tom Gravell a'r Fns. Helen Lewis. Teithiasant 420 o filltiroedd ar hyd y paith .... ac ar y ffordd yn ôl clywsant Gôr Edith MacDonald yn canu "Seimon Fab Jona". Yr oedd y lleisiau yn dda a'r gosodiad yn ardderchog, a hwn eto yn un o brofiadau grymus bywyd..."

Mae ein dyled yn fawr i aelodau Cymdeithas Gymraeg Buenos Aires am eu croeso twymgalon a'u parodrwydd amhrisiadwy yn rhoi cymorth i bawb yn y maes awyr yno.

Erbyn hyn sefydlwyd Cangen o Gymdeithas Cymry Ariannin ym Mangor, dan arweiniad Cathrin Williams, eu cynrychiolydd ar Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas. Y mae pob aelod o gangen Môn ac Arfon yn aelod o'r Gymdeithas.

Ym mis Rhagfyr 1989 cyfarfu tua 80 o aelodau'r Gymdeithas yn y Bala ar achlysur arbennig iawn, sef cyhoeddi cyfrol o farddoniaeth a rhyddiaith o'r enw "Edau Gyfrodedd" gan Irraa Hughes de Jones a olygwyd gan Cathrin Williams. Yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd y tri myfyriwr sydd yng Ngholeg Harlech a hefyd Mr. Brian Williams, un o Gyfarwyddwyr Cwmni Latin America, a fydd yn talu treuliau teithio'r myfyriwr nesaf i Goleg Harlech.

Gan fod Llywodraethau Ariannin a Phrydain bellach wedi cymodi ar ôl rhyfel y Malvinas mawr hyderir y bydd cwlwm y cyfathrachu rhwng Cymdeithas Cymry Ariannin a'r Wladfa yn grymuso mewn aelodaeth a brwdfrydedd'.

Y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf yn un o ystafelloedd swyddfa Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Ninbych, dydd Mawrth, Awst 8fed 1939.

D. Rhys Jones, Ysbyty Ystwyth (Llywydd)
Y Parchedig Nefydd Hughes Cadfan (Ysgrifennydd)
Y Parchedig Cyril Moore, Mr. a Mrs. R. J. Jones (Prestatyn),
Y Parchedig R. Bryn Williams (Llanberis),
Y Parchedig a Mrs. Alun Garner (Clawddnewydd), Mr. a Mrs. W. M. Evans (Fron-goch, Y Bala), Mr. James Nichols (Llan Ffestiniog),
Mrs. Ellis Williams (Dolwyddelan), Miss Eiddwen Evans, Miss Megan Evans.
Pwyllgor y Gymdeithas 1989
Y Bonwr John Edwards Dr. Phil Elis
Y Fns. Shân Emlyn (Ysgrifennydd)
Y Bnr. Gareth Evans
Y Bnr. Tom Gravell (Trysorydd)
Y Fns. Elizabeth Jones Dr. Robert Owen Jones
Y Fns. Valmai Jones (Llywydd Anrhydeddus)

Y Bonwr R. Silyn Hughes
Y Fns. Eiddwen Humphreys (Llywydd Anrhydeddus)
Y Parchedig Eirian Wyn Lewis (Cadeirydd)
Y Bonwr Elvey MacDonald
Y Fns. Ivonne Owen (Llywydd)
Y Fns. Arianina Roberts
Y Fns. Aur Roberts
Y Fns. Marian Elias Roberts
Y Bnr. Geraint Walters (Llywydd Anrhydeddus)
Y Fns. Cathrin Williams

Enwau'r buddugwyr yng nghystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru i rai sydd weld byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac sy'n dal i fyw yn Ariannin.

(Dechreuwyd y gystadleuaeth hon yn 1978 dan nawdd y Gymdeithas)

1978 Cyhoeddwyd y cynhyrchion buddugol hyn dan olygyddiaeth R. Bryn Williams (Atgofion o Batagonia, Gwasg Gomer, 1980)

1979 dim cystadleuaeth

1980 Tair ysgrif ar gymeriadau yn hanes y Wladfa
Y Buddugwyr: Glyn Ceiriog Hughes (£22.50c)
Irvonwy Evans de Hughes (eto)
Ifano Evans (£15)

1981 Cyfraniad merched i fywyd y Wladfa
Y Buddugwyr: Irma Hughes de Jones (£50)
Glyn Ceiriog Hughes (£25)

1982 (i) Addysg yn y Wladfa (ii) Crefydd yn y Wladfa
Buddugwr: Glyn Ceiriog Hughes

1983 (i) Taid (ii) Nain
Buddugwr: Irma Hughes de Jones

1984 Fy mhlentyndod
Buddugwyr: Irma Hughes de Jones (£50)
Celina Rowlands de Jones (£25)

1985 Dylanwadau
Buddugwyr: Irma Hughes de Jones (£50)
Celina Rowlands de Jones (£25)

1986 Atgofion Eisteddfodol
Buddugwyr: Irma Hughes de Jones (£50)
Arel Hughes (£15)
Dilys Williams de Jones (£10)

1987 Hen Feddyginiaethau ym Mhatagonia
Buddugwyr: Irvonwy Evans de Hughes (£50)
Dilys Williams de Jones (£12.50c) Erie James (eto)

1988 Atgofion am Eluned Morgan
Cyd-fuddugol: May Williams de Hughes
Moelona Roberts de Drake

1989 Atgofion am y Llifogydd
Buddugwyr: Irma Hughes de Jones £45
Gerallt Williams £30